



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 27AIN MEHEFIN, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Alan Jones Evans  
Olaf Cai Larsen  
Llio Elenid Owen  
Elfed Williams

Elfed Wyn ap Elwyn  
Jina Gwyrfai  
Gwynfor Owen  
Meryl Roberts  
Sasha Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Richard Glyn Roberts  
Eirwyn Williams  
Sedd Wag - Annibynnol

Peter Thomas  
Gruffydd Williams

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023-2024.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2023-2024.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am amseboldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24 Ebrill 2023 fel rhai cywir.

## 7. POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG - 11 - 15 ADRODDIAD ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith.

## 8. POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG - 16 - 20 ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR 21 - 45 WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r Aelodau er mwyn iddynt argymhell i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad.

## 10. CANLYNIADAU YMGYNGHORI STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 46 - 71 2023

Cyflwyno canlyniadau cychwynol yr ymgynghoriad gan y gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, a gwahodd sylwadau gan yr aelodau am ymateb posib y Uned Iaith a Chraffu wrth lunio'r strategaeth derfynol.



## PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 24 EBRILL 2023

### YN BRESENNOL:

Y Cyngorwyr: Elfed Wyn ap Elwyn (Cadeirydd)  
Llio Elenid Owen (Is-Gadeirydd)

Menna Baines, Alan Jones Evans Jina Gwyrfai, Olaf Cai Larsen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Richard Glyn Roberts, Meryl Roberts, Peter Thomas a Gruffydd Williams

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

Eitem 5: Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol).  
Eitem 6: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned).  
Eitem 7: Iwan Hywel (Pen Swyddog Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd))

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cyngorwyr Elfed Williams a Sasha Williams.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cyngorydd Elfed Wyn ap Elwyn mewn perthynas ag Eitem 7, ond dyfarnwyd nad oedd y buddiant yn rhagfarnu ac nid oedd angen gadael y cyfarfod.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

### 4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023 fel rhai cywir.

### 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: TÎM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Atgoffwyd bod y Tîm Arweinyddiaeth yn cefnogi Prif Weithredwr y Cyngor.

- Cadarnhawyd bod meddalwedd Microsoft bellach yn cael ei osod yn ddiodyn ar holl ddyfeisiau'r Cyngor. Nodwyd bod y niferoedd o ddyfeisiau sydd wedi eu cadw ar feddalwedd Cymraeg wedi codi i 63% o'i gymharu â 47% y llynedd. Er hyn, pwysleisiwyd bod gwaith parhaus yn cael ei wneud er mwyn annog staff i ddefnyddio'r feddalwedd Gymraeg ar eu dyfeisiau a'u cefnogi i feithrin hyder yn eu sgiliau cyfrifiadurol Cymraeg.
- Adroddwyd bod Fforwm Iaith newydd yn cael ei sefydlu gyda chyfarfod cyntaf y Fforwm yn cael ei gynnal ym mis Mehefin. Manylwyd bod Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn aelodau o'r fforwm.
- Ystyriwyd mai un o brif rolau'r Tîm Arweinyddiaeth yw dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau allanol. Nodiwyd bod y Swyddfa Gartref yn recriwtio siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd oherwydd bu i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Statudol a Phennaeth yr Adran Blant, wrthod croesawu arolygwyr Cyfiawnder Ieuenctid di-gymraeg. Ymhelaethwyd bod swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn hefyd wedi gwneud safiad mewn ymgais i gael arolygwyr sy'n gallu'r Gymraeg. Ymhellach, nodwyd bod nifer o Gynghorau Sir eraill ar draws y wlad wedi gwneud safiad o'r fath gan nodi na fyddent yn derbyn unrhyw arolygiad nes bydd y Swyddfa Gartref wedi llwyddo i recriwtio arolygwyr sy'n gallu'r Gymraeg.
- Cydnabuwyd bod trafferthion recriwtio wedi bod yn heriol dros y flwyddyn ddiwethaf a bod y gwasanaeth cyfreithiol wedi bod yn dibynnu ar wasanaeth locwm i ddarparu gwasanaethau mewn sawl maes. Cydnabuwyd bod hyn wedi cael peth effaith ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gwasanaeth gan ei fod yn eithriad bod cyfreithwyr locwm yn medru'r Gymraeg. Pwysleisiwyd bod y sefyllfa recriwtio yn gwella gan fod y gwasanaeth bellach yn gallu penodi mwy o staff heb gyfaddawdu ar ofynion ieithyddol Cymraeg oherwydd bod yr unigolion sydd wedi eu penodi eisoes yn cyfarch gofynion ieithyddol y Cyngor.
- Eglurwyd bod Gwynedd yn arwain ar sawl prif bartneriaethau rhanbarthol gan gynnwys GwE, Bwrdd Uchelgais a Chydbwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd. Mae gan y gwasanaeth cyfreithiol rôl allweddol yn eu cynnal. Credir bod presenoldeb swyddogion Gwynedd o fewn y partneriaethau yma yn sicrhau defnydd y Gymraeg mewn meysydd technegol yn naturiol. Adlewyrchir hyn yng ngwaith y partneriaethau.
- Trafodwyd bod Cyngor Gwynedd ar fin prynu meddalwedd newydd ar y cyd gyda chynghorau dwyreiniol Gogledd Cymru. Cadarnhawyd bod gallu'r system i addasu a chofnodi gwybodaeth drwy'r Gymraeg a Saesneg yn ofyn craidd i dderbyn y feddalwedd, yn unol â gofynion ieithyddol Cyngor Gwynedd.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Trafodwyd bod trafferthion yn gallu codi wrth gydweithio gydag asiantaethau eraill pan nad oes cyfeithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd neu ddogfennaeth. Ystyriwyd os oes polisi mewn grym mewn sefyllfaoedd o'r fath er mwyn sicrhau bod swyddogion Gwynedd i gyd yn dilyn yr un protocol.
  - Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod proses o gofnodi cwynion a thrafferthion mewn lle. Cadarnhawyd bod staff yn cael eu hatgoffa o sut i ymateb i unrhyw sefyllfa o'r fath. Ymhelaethwyd bod y mater hwn wedi cael ei godi gyda Comisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar ac maent yn awyddus i'r Cyngor rannu tystiolaethau o enghreifftiau pan maent yn codi. Manylwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i wybod mwy am unrhyw gwynion sydd yn codi er mwyn iddynt wybod pa adrannau sydd ddim yn cydymffurfio â pholisïau iaith.
- Ystyriwyd a fyddai'n fuddiol i'r Cyngor yrru unrhyw ddogfennaeth i asiantaethau allanol yn uniaith Gymraeg er mwyn eu gorfodi i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Mewn ymateb i'r ymholiad cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith mai polisi'r Cyngor yw i ysgrifennu'n Gymraeg yn gyntaf gyda chyfieithiad Saesneg oddi tano. Cadarnhawyd bod hyn hefyd yn wir am gyfarfodydd y Cyngor, sydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg gyda chyfieithiad Saesneg.
- Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwahaniaeth rhwng cyfathrebu'n ddwyieithog a chyfathrebu yn Saesneg yn unig, gan ystyried y posibilrwydd bod rhai unigolion yn anwybyddu y rhannau Cymraeg a canolbwyntio ar yr ochr Saesneg yn unig. Soniwyd mai un dull y gellir ei ddefnyddio er mwyn sicrhau gohebiaeth Gymraeg gan asiantaethau yw i beidio ateb unrhyw ohebiaeth cyfrwng Saesneg, nes bydd gohebiaeth Gymraeg yn cyrraedd. Ymhelaethwyd bod y dull o gyfathrebu'n ddwyieithog yn rhywbeth y dylid ei ystyried pan mae'r cyfle nesaf yn codi i adolygu'r polisi iaith.
  - Mewn ymateb i'r sylwadau cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod y rhan fwyaf o bobl yn ysgrifennu yn Gymraeg oni bai eu bod yn ymwybodol yn barod nad ydi'r unigolion sy'n derbyn yr ohebiaeth yn deall Cymraeg. Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod Cynllun Hybu'r Gymraeg yn cael ei ddiwygio dros y misoedd nesaf a gellir rhoi ystyriaeth i'r materion yn y trafodaethau hynny.
- Rhannwyd enghreifftiau o sefyllfaoedd ble mae pobl sy'n gallu defnyddio'r iaith Gymraeg yn troi i'r Saesneg wrth ymateb i sylwadau unigolion sy'n siarad Saesneg mewn cyfarfodydd. Rhoddwyd cydnabyddiaeth nad yw'n hawdd, ond nodwyd ei bod yn bwysig i unigolion Cymraeg wneud pob ymdrech i ymateb i unrhyw sylwadau mewn Gymraeg pan fo darpariaeth Cyfieithu ar gael i'r di-Gymraeg.
- Llongyfarchwyd y swyddogion am eu gwaith yn arwain ar yr iaith Gymraeg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## **6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Economi a Chymuned a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod Gwynedd yn parhau i arwain ar gynllun ARFOR gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Eglurwyd bod cais llwyddiannus wedi ei wneud gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau bod y prosiect hwn yn parhau hyn o leiaf 2025 er mwyn ariannu prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Adroddwyd bod gan yr adran gronfa grant er mwyn cefnogi busnesau a chymunedau. Mae hyn yn ychwanegol i grantiau Llywodraeth Cymru ac mae'r Cyngor yn gallu gosod telerau ieithyddol fel amodau i dderbyn y cymorth ariannol.
- Soniwyd bod cryn dipyn o drafodaeth wedi bod ynghylch sut i hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Economi Ymweld ac yn sgil hynny, mae'r adran wedi comisiynu Prifysgol Bangor i gydweithio gyda'r Cyngor i osod gwaelodlin a mesuryddion effaith ymwelwyr i'r ardal ar yr iaith.
- Eglurwyd bod adborth calonogol wedi'i dderbyn gan unigolion sy'n defnyddio cyfleusterau'r amgueddfeydd, celfyddydau a llyfrgelloedd. Eglurwyd bod nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal mewn awyrgylch llai ffurfiol er mwyn caniatáu i unigolion fagu hyder yn eu defnydd o'r iaith. Manylwyd bod dysgwyr Cymraeg yn fwy hyderus i gyfrannu mewn sgysiau mewn awyrgylch o'r fath.
- Esboniwyd bod yr adran wedi derbyn £18miliwn gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Ffyniant Bro, Llewyrch a Llechi fel rhan o'r rhaglenni adfywio. Ymhelaethwyd nad oes

amodau ieithyddol wedi eu gosod gan y llywodraeth wrth i'r Cyngor ddyrannu'r arian ymhellach. Er hyn, mae'r adran yn ceisio gosod sail er mwyn sicrhau bod gofynion ieithyddol yn cael eu gosod ar unrhyw gais am arian er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei ystyried fel rhan o'r rhaglen adfywio.

- Cyfeiriwyd at un o rwystrau'r adran i ddatblygu sgiliau ieithyddol y gwasanaeth morwrol. Eglurwyd bod yr adran yn cyflogi 27-30 o wardeniaid traethau dros gyfnod yr haf er mwyn diogelu'r cyhoedd. Oherwydd natur tymhorol eu swydd, nid yw'r adran yn gallu cydweithio gyda'r unigolion hyn o flwyddyn i flwyddyn i wella eu gallu gyda'r Gymraeg, ac mae hyn yn rwystr mae'r adran yn ceisio ei ddatrys. Er hyn, manylwyd bod 94.5% o staff yr adran yn cyrraedd dynodiad ieithyddol eu swydd allan o'r 80.5% o holl staff yr adran oedd wedi cwblhau'r hunan asesiad.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Croesawyd bod yr adran yn cydweithio gyda canolfannau Cymraeg i oedolion a nodwyd y gobaith y bydd hyn yn drefniant fydd yn parhau i'r dyfodol.
  - Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth Adran Economi a Chymuned nad oedd addysg oedolion yn waith sydd fel arfer yn weithredol o fewn yr adran. Manylwyd bod y gwaith cydweithio hwn yn digwydd drwy grant mewn cydweithrediad gyda Choleg Llandrillo Menai er mwyn sicrhau bod pecynnau addysg ar gael i bawb- bod drwy golegau neu lyfrgelloedd.
- Mewn ymateb i ymholiad am gydweithio gydag amgueddfeydd annibynnol, cadarnhaodd Pennaeth Adran Economi bod hyn yn digwydd fel rhan o waith yr adran, ond fod peth effaith wedi bod ar hyn yn sgil absenoldebau staff yn ddiweddar. Er hynny, cadarnhawyd y bydd cydweithio gydag amgueddfeydd annibynnol yn parhau i ddigwydd yn y dyfodol.
- Mewn ymateb i ymholiad am ymrwymo cwmnïau i amodau ieithyddol wrth ymgeisio am arian grant, cadarnhaodd Pennaeth Adran Economi a Chymuned nad oes modd gwneud hyn ymhob achos. Eglurwyd bod modd gosod amodau ieithyddol i ymgeiswyr grant drwy rhai prosesau megis prosiect ARFOR ond yn anffodus, mae'n annhebygol bod modd gosod gofynion ieithyddol ar bob cronfa arian sydd wedi cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Er hyn, pwysleisiwyd bod yr adran yn ceisio gosod seiliau fel bod modd gosod amodau o'r fath yn y dyfodol.
- Mewn ymateb i ymholiad am grantiau bychan i fusnesau, cadarnhaodd Pennaeth Adran Economi a Chymuned bod modd i fusnesau ymgeisio am grantiau am arwyddion, sticeri ar gyfer cerbydau neu unrhyw ddull arall o hyrwyddo'r iaith. Er hyn, manylwyd mai dim ond am 18 mis mae'r arian ar gael o hyn o bryd ac felly anogwyd ymgeiswyr i wneud hynny mor fuan â phosibl.

Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## **7. DIWEDDARIAD AR WAITH HUNANIAITH – MENTER IAITH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Pen Swyddog Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd) a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod grŵp arweiniol gwirfoddol wedi ei sefydlu er mwyn cwblhau'r gwaith o newid y fenter i fod yn un annibynnol o'r Cyngor. Esboniwyd bod cwmni newydd – nid er elw, sef Menter Iaith Gwynedd wrthi'n cael ei sefydlu gan y grŵp gwirfoddol.



Ymhelaethwyd mai'r nod yw trosglwyddo staff i'r endid newydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

- Eglurwyd bod cynrychiolaeth dda o wahanol oedrannau, rhyw ac ardaloedd ar y grŵp.
- Adroddwyd bydd lansiad meddal i'r fenter newydd ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst
- Nodwyd bod llwyddiant i ddenu cyllid ychwanegol drwy'r gronfa Llywodraeth Cymru 'Haf o Hwyl' o fewn y flwyddyn ddiwethaf wedi caniatáu Hunaniaith i drefnu 23 digwyddiad i 341 o blant a phobl ifanc ar draws y sir.
- Adroddwyd bod cydweithio da yn digwydd gydag adrannau'r cyngor megis yr Adran Addysg er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth a mewnbwn gan deuluoedd cyfan ar ddigwyddiadau canolfannau trochi, gwybodaeth am iaith a diwylliant Gwynedd a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at gydweithio gyda Menter Iaith Môn er mwyn denu cyllid gan Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd er mwyn annog mwy o fusnesau i wneud defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.
- Atgoffwyd yr aelodau mai prif nod y fenter yw adnabod bylchau o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd a chydweithio gyda chymunedau i ganfod datrysiadau hir dymor iddynt. Rhannwyd enghraifft o hyn drwy fanylu ar wersi ioga Cymraeg ym Mangor yn dilyn canfyddiadau o'r angen iddynt gael eu cynnal o fewn yr ardal.
- Nodwyd bod tri aelod o staff yn cefnogi Pen Swyddog Hunaniaith. Prif ffocws eu gwaith yw annog a chefnogi cymunedau i ddatblygu prosiectau i hybu defnydd o'r Gymraeg, a fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir. Ymhelaethwyd mai prif ffocws y fenter yw edrych ar ardaloedd yn bennaf, yn hytrach na phrosiectau unigol. Cadarnhawyd mai'r ardaloedd sydd wedi eu blaenoriaethu am y flwyddyn nesaf, yw Bangor, Ogwen, Penllyn a'r Felinheli. Manylwyd hefyd bod y fenter yn mynd i ganolbwyntio ar ardal Pen Llŷn oherwydd bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal o fewn yr ardal hon eleni.
- Trafodwyd rhai o flaenoriaethau'r fenter am y flwyddyn i ddod, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn annog mwy o bobl i siarad Cymraeg yn yr ardal a hefyd i weithio gyda phlant a theuluoedd Cymraeg i sicrhau bod yr iaith yn cael ei siarad ymysg ei gilydd o ddydd i ddydd.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Mewn ymateb i ymholiadau ar effaith yr iaith Gymraeg yn sgil ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, cadarnhaodd Pen swyddog Hunaniaith bod trefnwyr yr eisteddfod yn edrych ar nifer o opsiynau gwahanol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol er mwyn hyrwyddo'r iaith. Rhannwyd nifer o syniadau gan yr aelodau gan gynnwys gostyngiad ar bris mynediad ar ddyddiau penodol o'r ŵyl a thargedu rhai ardaloedd er mwyn annog pobl i fynychu a chlywed yr iaith Gymraeg yn naturiol, o ystyried bod safle'r Eisteddfod wedi ei leoli mewn ardal ble mae llawer o dwristiaeth. Mewn ymateb i'r uchod cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Iaith a Chraffu byddai'n rhannu'r sylwadau gyda swyddog y Cyngor sy'n cydlynu trefniadau'r Cyngor gyda'r Eisteddfod.
- Rhannwyd pryder bod yr menter iaith yn gadael y Cyngor a ystyriwyd y rheswm dros y newid hyn.
  - o Mewn ymateb i'r cwestiwn, cadarnhaodd Ymgynghorydd Iaith a Chraffu fod y newid hwn yn digwydd er mwyn sicrhau bod cymunedau yn perchnogi'r fenter yn y dyfodol. Gobeithir bydd mwy o bobl o fewn cymunedau yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y digwyddiadau ac oherwydd hynny yn hyrwyddo'r Gymraeg yn well mewn cymunedau.
  - o Manylodd Pen swyddog Hunaniaith y byddai'r fenter yn derbyn mwy o opsiynau cyllidol pan yn endid annibynnol, o'i gymharu â bod y fenter yn rhan o Adran Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

**8. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Atgoffwyd yr aelodau bod yr adroddiad hwn yn rhannu enghreifftiau o lwyddiannau a chwynion sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor.
- Manylwyd bod pedwar cwyn wedi cael euderbyn yn gysylltiedig â chydymffurfiaeth safonau'r Gymraeg. Ymhelaethwyd nad yw'r Cyngor wedi derbyn dyfarniad terfynol dau o'r cwynion hynny. Esboniwyd nad oedd yn briodol cynnal trafodaeth ar y cwynion hynny gan ei bod yn rhai byw ac maent wedi eu cynnwys yn yr adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau yn unig.
- Rhannwyd manylion am bedwar cwyn a dderbyniwyd mewn cysylltiad â pholisi iaith y Cyngor.

Rhoddydwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y mater canlynol:

- Llongyfarchwyd y Cyngor am eu llwyddiant a nodwyd mai nifer isel iawn o gwynion sydd wedi cael eu derbyn.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 12:05yp.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

|                 |  |
|-----------------|--|
| <b>CYFARFOD</b> | Pwyllgor Iaith   |
| <b>DYDDIAD</b>  | 27/6/23  |
| <b>TEITL</b>    | Adroddiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant                |
| <b>PWRPAS</b>   | Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith |

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am weithrediad y Polisi Iaith o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant.
- 1.2 Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.
- 1.3 Yn 2021 lanswyd 'Mwy na Geiriau: Cynllun 5 Mlynedd 2022-27'. Mae'r cynllun yn olynu fframwaith strategol ddilynol Mwy na Geiriau a gyhoeddwyd yn 2016 ac yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud hynny ar sail yr egwyddor o 'Gynnig Rhagweithiol'. Ystyr y Cynnig Rhagweithiol ydi i sicrhau fod unigolion sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaeth yn Gymraeg yn awtomatig heb orfod gofyn amdano na mynegi ffafriaeth na dewis iaith.
- 1.4 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac rydym fel Cyngor wedi ymrwmo i Mwy na Geiriau ers pan ei gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2012, ac wedi croesawu'r egwyddorion. Mae swyddogion y Cyngor wedi cyfrannu'n gyson i fforwm rhanbarthol Mwy na Geiriau ar gyfer cydweithio a rhannu ymarfer da ac maent hefyd yn cyfrannu i grŵp tasg ar hyn o bryd er mwyn ystyried y modd y gallem gysoni'r data rydyn ni'n ei hel ar sgiliau iaith staff y maes.
- 1.5 Er mwyn rhoi'r Cynllun 5 Mlynedd ar waith, mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp Mwy na Geiriau mewnol o dan arweiniad Huw Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys y penaethiaid perthnasol, uwch reolwyr, swyddogion hyfforddiant ac iaith a chynrychiolaeth adnoddau dynol. Mae'r aelod cabinet perthnasol, sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, hefyd yn eistedd ar y grŵp. Mae darn o waith wedi'i wneud i fapio ein gwaith mewn perthynas â'r ymrwymadau yn y cynllun er mwyn i ni fedru canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen gwaith pellach. Mae'r grŵp hefyd ar hyn o bryd yn gweithio ar sefydlu mesurau perfformiad ar gyfer y gwaith yma.

|   |  |
|---|--|
| Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:  |  |
| <p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut mae eich adran yn mynd tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?</p> <p>Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes :</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Iaith y teulu,</li> <li>2. Iaith dysgu,</li> <li>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,</li> <li>4. Iaith y gymuned</li> <li>5. Ymchwil a Thechnoleg</li> </ol> | <p>Mae'n ofynnol i'r Adran Oedolion wneud cynnig rhagweithiol i bawb sy'n derbyn gwasanaeth, gan sicrhau fod unigolion yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf heb orfod gofyn. Mae hyn yn egwyddor sy'n greiddiol i waith Dydd i Ddydd yr Adran.</p> <p><b><u>Technoleg</u></b></p> <p>Mae technoleg yn y maes gofal yn datblygu yn sydyn. Gyda'r boblogaeth yn heneiddio ac yn byw yn hirach, a chyfraddau dementia yn cynyddu (er enghraifft), mae'r lefel o ofal fydd ei angen i'r dyfodol yn mynd i fod yn sylweddol uwch na'r lefel bresennol. Dydi recriwtio mwy o staff yn unig ddim yn mynd i gyfarch y galw, a bydd technoleg yn chwarae rhan flaenllaw yn darparu gofal a chefnogaeth amgen i'r boblogaeth yn y dyfodol. Rydym wrthi yn datblygu darpariaethau yng Ngwynedd sydd yn darparu gwasanaeth yn y Gymraeg, un esiampl yw 'AskSara' - <a href="http://livingmadeeasy.org.uk">Disabled Living Foundation - AskSARA (livingmadeeasy.org.uk)</a>. Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn disodli ein holl offer teleofal ar draws Gwynedd ac yn darparu offer digidol (oddeutu 1500 o ddarnau o offer). Ar hyn o bryd mae'r offer yma yn 'cyfathrebu' yn Saesneg (er enghraifft wrth gysylltu a'r ganolfan alwadau), ond y bwriad yw parhau i gomisiynu offer digidol newydd sydd yn cyfathrebu yn y Gymraeg yn safonol, a fod y Gwasanaeth yna yr un safon a'r opsiwn Saesneg.</p> <p><b><u>Mwy na Geiriau</u></b></p> <p>O safbwynt gwaith a gwasanaeth, mae'r Adran wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i drigolion ar draws y sir yn awtomatig ac heb iddynt orfod gofyn amdano. Mae sawl swyddog o'r Adran yn eistedd ar grŵp Mwy na Geiriau'r cyngor a ffocws y grŵp dros y misoedd diwethaf oedd i fapio'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonom fel awdurdod lleol gan asesu'n union lle'r ydan ni wedi cyrraedd gyda phob cam gweithredu ac i benodi swyddog penodol yn gyfrifol am arwain ar bob ffrwd gwaith.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gwaith yn digwydd i ddatblygu mesurydd er mwyn caniatu'r adran i fedru tystiolaethu'n well ein llwyddiant i ddarparu asesiad o anghenion gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn sail i ni fedru adnabod bylchau yn ein darpariaeth ac i gynllunio tuag at gynyddu ein gallu o fewn y mesysydd/gwasanaethau hynny.</p> <p>Yn ogystal, rydym yn cydweithio'n agos iawn â phartneriaid fel y Bwrdd Iechyd er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i drigolion Gwynedd; rydym ar hyn o bryd yn adolygu unrhyw feysydd lle mae gweithio mewn partneriaeth yn creu anawsterau o safbwynt iaith. Byddwn yn rhoi sylw i'r meysydd hynny dros y misoedd i ddod.</p> |
| <u>Materion Polisi a Safonau</u>  | <b><u>Sgiliau Iaith Staff</u></b>  |

|  |  |
|--|--|
| <p>i) <i>Sgiliau Iaith Staff</i><br/> ii) <i>Rhwystrau</i><br/> iii) <i>Canmoliaeth a Chwynion</i></p> | <p>Yn ôl data dynodiadau iaith diweddaraf yr Adran, mae ychydig dros 60% o staff yr Adran (722 o unigolion) wedi cwblhau yr hunanasesiad iaith. Mae'r mwyafrif o'r staff sydd heb gwblhau'r hunanasesiad yn staff gofal nad oes ganddyn nhw fynediad at systemau Technoleg Gwybodaeth o ddydd i ddydd, e.e. gofalywyr cartref. Mae'r her o gael y staff yma i gwblhau yr hunan asesiad yn parhau, a byddwn yn trio rhoi'r cyfle i'r staff yma gwblhau hunanasesiad drwy gynnal gweithdai allan yn y gymuned.</p> <p>O'r rheini sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad, mae 80% yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Eto, mae'r mwyafrif o'r 128 sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi yn weithwyr rheng flaen – er enghraifft yn gweithio yn y cartrefi preswyl neu yn ofalwyr cartref. Mae gwaith/ymgyrchoedd penodol yn digwydd yn rhai ardaloedd o'r sir, er enghraifft staff cartref Llys Cadfan yn Nhywyn yn mynychu sesiynau grŵp i ddysgwyr.</p> <p><b><u>Rhwystrau</u></b></p> <p>Un o'r prif rwystrau i'r Adran o hyd yw'r angen i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd ac eraill, ac effaith hynny ar ein defnydd o'r iaith. Wrth gynnal gwasanaethau integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae gofyn am gydweithio agos, ac mae hyn yn gallu bod yn her pan fo gymaint o'r cyfarfodydd ayyb yn cychwyn yn Saesneg. Mae'r Adran yn ceisio dylanwadau ar rai agweddau, er enghraifft drwy bwysu i sicrhau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd fwy ffurfiol.</p> <p>Rhwystyr arall ydi'r datblygiadau mewn thechnoleg yn y maes gofal. Mae rhai systemau mor arbenigol nad ydyn nhw ar gael yn y Gymraeg (er enghraifft larwm disgyn 'buddi', a system fonitro 'Canary'). Er hynny, mae esiamplau uchod o sut mae'r Adran yn ceisio dylanwadu ar ddarparwyr technoleg. Mae esiampl yn ddiweddar lle rydym wedi dweud wrth ddarparwr na fyddwn ni'n comisiynu na'n defnyddio eu hoffer ('robot' i daclo unigrwydd) nes mae ar gael yn y Gymraeg, ac mae'r cwmni wedi cychwyn datblygu'r feddalwedd i fod ar gael yn y Gymraeg.</p> <p>Mae recriwtio yn parhau i fod yn un o'r prif rwystrau i'n galluogi i gynnig gwasanaethau yn llawn yn y Gymraeg. Mae recriwtio i'r maes gofal yn parhau yn broblem genedlaethol. Pan fo'r gwasanaeth yn ceisio pob ffordd i recriwtio i swyddi gofal rheng flaen ac yn methu, yn aml iawn mae rhaid cyfaddawdu er mwyn gallu cynnig unrhyw fath o wasanaeth, boed hynny drwy staff di-gymraeg neu staff asiantaeth. Mae cefnogaeth yn cael ei roi i staff di-gymraeg ac mae esiamplau o staff di-gymraeg yn dysgu ac yn dod yn aelodau gwerthfawr o'r Adran gyda chefnogaeth. Mae'r Adran wedi cychwyn recriwtio yn fwy lleol, ac mae hyn wedi galluogi rheolwyr i drafod anghenion iaith ac opsiynau gydag unigolion na fyddai wedi dod i gyswllt yn flaenorol o bosib.</p> |
|--|--|

|  |  |
|--|--|
|  | <p><b><u>Canmoliaeth a Chwynion</u></b></p> <p>Does dim canmoliaeth na chwynion ffurfiol ynglyn a'r iaith wedi cyrraedd Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran dros y flwyddyn ddiwethaf. O gysidro y niferoedd o oedolion sydd yn derbyn gwasanaeth gennym ar draws y sir, mae'n debyg fod rhesymau pam nad ydi'r canmoliaeth a'r cwynion yn ein cyrraedd yn ffurfiol. Mae rywfaint o dystiolaeth yn awgrymu fod unigolion yn y maes gofal yn enwedig yn amharod i gwyno am eu gwasanaeth, gan boeni y byddai'n cael effaith ar y gofal a/neu chefnogaeth mae nhw'n ei dderbyn. Gan fod cyfran sylweddol o'r gofal mae'r Adran yn ei gynnig ar gael yn y Gymraeg, mae'n bosib fod y gofal yma yn y Gymraeg yn cael ei gymryd yn ganiataol ac mai dyma'r rheswm pam nad oes canmoliaeth ffurfiol yn ein cyrraedd. Yn sicr mae aelodau staff yn ymwybodol o ddiolchiadau anffurfiol gan drigolion eu bod yn cael gofal yn y Gymraeg.</p>   |
| <p><u>Cyfleoedd Datblygu</u></p> <p>Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gyda eraill?</p> | <p>Er mwyn hybu'r Gymraeg ymhellach o fewn cymunedau Gwynedd, mae'n allweddol bwysig fod yr Adran Oedolion yn parhau i ddilyn ac hyrwyddo egwyddorion Mwy na Geiriau, ac yn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn y cynnig rhagweithiol pob amser.</p> <p>Mae angen i ni sicrhau fod ein holl staff (gan gynnwys staff proffesiynol – gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ayyb), yn ymwybodol o ofynion Mwy na Geiriau a beth mae'n olygu iddyn nhw. Mae teimlad nad ydi rai o drigolion mwyaf bregus y sir yn derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg heb orfod gorfod amdano pob amser, ac yn hytrach mewn rhai achosion fod y cwestiwn yn cael ei ofyn iddyn nhw pa iaith fyddai eu dewis.</p> <p>Mae angen i ni weithio tuag at y pwynt lle mae'r cynnig rhagweithiol yn arferiad, a bod modd i ni fesur effaith hyn ar drigolion Gwynedd yn effeithiol.</p> <p>Fel sy'n cael ei grybwyll uchod, peth arall sydd angen i'r Adran wneud i hybu'r Gymraeg ydi sicrhau fod unrhyw dechnoleg sydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o ofal amgen i'r dyfodol ar gael yn y Gymraeg yn llawn.</p> |



# Eitem 8

|          |  |
|----------|--|
| Cyfarfod | Pwyllgor Iaith   |
| Dyddiad  | 27 Mehefin 2023  |
| Teitl    | Adroddiad Adran Plant a Cefnogi Teulu ar weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd                       |
| Pwrpas   | Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith, a sut yr ydym yn mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwaith. |
| Awdur    | Marian Parry Hughes, Pennaeth Plant a Cefnogi Teulu  |

## Cyflwyniad.

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i ddarparu gwybodaeth am gyfraniad Gwasanaethau'r Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd i Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

1.2 Yn 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig Rhagweithiol" i bawb sy'n siarad Cymraeg. Mae gallu darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.

1.3 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i 'Mwy na Geiriau' o ddyddiad ei gyhoeddi yn 2012, ac yna wedi croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd yn 2016.

1.4 Gweler isod ymateb y gwasanaeth i gwestiynau'r aelodau:

|   |                 |
|---|-----------------|
| <b>Cwestiwn 1</b>   | Hybu a hyrwyddo |
| <b><i>Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol ?</i></b>  |                 |
| <b>1. <u>Iaith y Teulu</u></b>  |                 |
| <b>laith yn y sector gofal plant</b> – Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio gydag aelodau CWLWM ( 5 sefydliad arweiniol cenedlaethol gofal plant yng Nghymru) i hybu a hyrwyddo y Gymraeg ar draws lleoliadau gofal yng Ngwynedd, sef meithrinfeydd preifat, creches, cylchoedd meithrin, gwarchodwyr preifat, cybiau ar ôl ysgol ac yn y blaen. |                 |
| Mae amrywiaeth o adnoddau, cymorth a chefnogaeth ar gyfer hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg gael ar gael ar wefannau'r cyrff arweiniol (Pacey, NDNA, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin ag Clybiau Plant Cymru)ac rydym yn eu hyrwyddo a;u rhannu gyda lleoliadau a darparwyr gofal yn lleol.   |                 |
| Mae Cydlynwyr Cymorth Iaith Gymraeg yn gweithio i'r 5 sefydliad sydd yn disgyn o dan ymbarél CWLWM, ag mae pob sefydliad yn gweithio ar brosiectau gwahanol ag yn cynnig cefnogaeth er mwyn hybu'r Gymraeg ac i ehangu'r nifer o leoliadau Cymraeg yng Ngwynedd.  |                 |
| Mae'r gwaith i hyrwyddo cynllun CAMAU <a href="https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/">https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/</a> i annog gweithlu y sector gofal plant i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn parhau.   |                 |



Mae “Cynllun Croesi’r Bont” gan y Mudiad Meithrin yn parhau, prif bwrpas yw Trochi’r Gymraeg o fewn cylchoedd Meithrin a chynyddu pontio ieithyddol gyda dosbarthiadau Meithrin Ysgolion Cymru.

Mae’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar hefyd yn cynnig grantiau o £100 i warchodwyr plant preifat newydd sydd yn ddi-gymraeg ar gyfer prynu adnoddau Cymraeg i’r ddarpariaeth.

**Cefnogaeth i Rieni** – Mae’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar wedi cydweithio gyda Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau clwb cwtsh i rieni ar lein.

Mae’r Tim Cefnogi Teulu, Tim Trothwy a Gwasanaeth Ieuentid i gyd wedi eu hyfforddi i ddarparu cyrsiau rhianta ‘Friends’ drwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol ar gyfer grwpiau gwahanol o blant, pobl ifanc a rhieni.

**Cefnogaeth i blant /pobl ifanc bregus** – Mae’r Timau Gwaith Cymdeithasol yn ystyried anghenion iaith bob plentyn sy’n derbyn gofal a chymorth gennym. Mae iaith yn ffactor wrth benderfynu ar faterion megis cynnwys y pecyn gofal a’r gefnogaeth sydd ei angen ar y teulu / plentyn; lleoliad gofal, maethu a/neu fabwysiadu unrhyw blentyn. Wrth gwrs mae rhai o’r plant sy’n dod i’n gofal yn gwneud hynny oherwydd y risgiau diogelu difrifol y maent yn eu wynebu a/neu oherwydd cymhlethdod a dwyster eu anghenion gofal. Bryd hynny gall lleoliadau all-sirol fod yr unig opsiwn i’r plentyn, ond pan fo hynny’n digwydd bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i gyfarch anghenion ieithyddol y plentyn drwy ymweliadau cyfrwng Cymraeg a drwy sicrhau adnoddau (llyfrau etc) iddynt yn eu lleoliad.

## **2. iaith dysgu.**

**Addysg Feithrin** – Mae’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth addysg feithrin (10 awr yr wythnos i blant 3 oed). Mae’r holl ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trochi plant bach yn yr iaith o’u cyflwyniad cyntaf i addysg. Mae i Wynedd 55 o ddarparwyr Addysg Feithrin ar hyn o bryd, sy’n derbyn cefnogaeth Athrawes Blynyddoedd Cynnar gennym.

**Gofal Plant Dechrau’n Deg** - Mae’r adran yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth Gofal Plant Dechrau’n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant 2 oed) i ardaloedd difreintiedig penodol yng Ngwynedd. Mae’r holl ddarpariaethau’n cynnig eu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trochi plant bach yn yr iaith o’u cyflwyniad cyntaf i Ofal Plant yn 2 oed. Mae 12 lleoliad Gofal Plant Dechrau’n Deg yng Ngwynedd

**Gweithwyr Ieuentid mewn Ysgolion** - Mae’r Rhwydwaith o Weithwyr Cymorth Ieuentid yn y Gwasanaeth Ieuentid yn darparu cyfleon dysgu anffurfiol ac achrediaidau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r gweithwyr yn darparu cyfleon dysgu ac ennill achrediaidau drwy’r ysgolion uwchradd ac arbennig, ac yn pontio i weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned.

**Gwobr Dug Caeredin yng Ngwynedd** - Un o brif raglenni achrediaidau’r Gwasanaeth Ieuentid yw Gwobr Dug Caeredin. Y Gwasanaeth Ieuentid sy’n darparu a gweinyddu y drwydded ar gyfer ysgolion uwchradd Gwynedd. Rydym wedi sicrhau fod holl elfennau’r wobwr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yma yng Ngwynedd, drwy ddarparu’n uniongyrchol ein hunain a chomisiynu’r Urdd i arwain ar rhai elfennau. Mae ‘App’ Cymraeg Gwobr Dug Caeredin wedi ei gyflwyno erbyn hyn ac ar gael i bobl ifanc.

## **3. iaith gwaith a gwasanaeth.**

**Gwasanaethau Cymraeg** – yr ydym yn falch o fedru adrodd fod ein holl wasanaethau yn gallu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Hyfforddiant Arbenigol a Datblygu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol** – Mae'r Rhaglen "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" yn brosiect ym maes amddiffyn plant. Mae wedi datblygu cronfa o adnoddau ysgrifenedig, fideo a cyflwyniadau PowerPoint wedi ei drosleisio at ddefnydd proffesiynol. Mae'r deunyddiau wedi eu datblygu yn Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer defnydd rhanbarthol a chenedlaethol.

**Gofal maeth** – Fel rhan o ymgyrch maethu cenedlaethol Maethu Cymru, mae grŵp o ofalwyr maeth o Wynedd wedi creu fideo ar gyfer defnydd yn genedlaethol i ddenu pobl i feddwl am faethu. Mae'r fideo yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg gydag is deitlau Saesneg ac yn cael ei gweld yn rheolaidd fel rhan o ymgyrchoedd maethu. Mae yn gyfle gwych i danlinellu'r defnydd o'r iaith fel iaith gwaith dydd i ddydd ac yn ffordd geisio denu siaradwyr Cymraeg i'r gymuned faethu.

#### **4. Iaith y Gymuned**

**Gwasanaeth Ieuenctid** - Mae holl ddarpariaeth gymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r gweithgareddau yn amrywio o gynlluniau garddio, cybiau dringo, gweithdai graffiti a chelf, sesiynau coginio mewn cymunedau drwy'r sir.

**Gweithgareddau a Chwarae** – Mae'r Adran wedi arwain ar sefydlu Fframwaith Weithgareddau a Chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor. Hyd yma mae 24 o ddarparwyr gweithgareddau wedi cymeradwyo ar y fframwaith ac yn gallu darparu cyfleon chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Fframwaith yn cael ei defnyddio ar gyfer comisiynu gweithgareddau hwyliog, creadigol, chwaraeon a chwarae i blant a pobl ifanc. Drwy gyfnod gwyliau ysgol 2022-23, bu i'r Adran gomisiynu gweithgareddau hwyliog a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r sir. Bu i bartneriaid fel Canolfan Gerdd William Mathias, Sbarduno, Byw yn Iach, Dawns i Bawb, Leisa Mererid, Elfennau Gwyllt, Urdd a Cimera ddarparu ystod amrywiol o weithgareddau drwy'r sir ar gyfer plant dan 5 a'u teuluoedd, plant oed cynradd, a pobl ifanc 11-25 oed.

#### **5. Ymchwil a Thechnoleg**

Yn ddiweddar cynhaliwyd Gwyl Llesiant Ieuenctid Gwynedd, lle roedd dros 50 o sefydliadau lleol wedi dod ynghyd i gynnig gweithgareddau llesiant i bobl ifanc. Roedd y gweithgareddau wyneb yn wyneb, rhithiol ac hybrid i gyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn gwaith ymgysylltu gyda teuluoedd mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd bellach yn ymchwilio i dechnoleg o amgylch platfformau gwybodaeth newydd ar gyfer darparu'r wybodaeth sydd ei angen ar deuluoedd ar ffurf sydd yn hygyrch, yn hawdd i'w ddefnyddio i gyflawnir' hyn sy'n bwysig i'r darllenwyr.

Mae'r Adran wedi bod yn cydweithio gyda Tim Llesiant y Cyngor i ddatblygu app ar gyfer cefnogi gofalwyr ifanc. Mae Ap Ai Di yn ffordd hwylus i ofalwyr ifanc gadw cyswllt gyda'u hysgol, ac i'w ddefnyddio yn y gymuned i gael gostyngiadau ar weithgareddau a gwasanaethau.

**Cwestiwn 2**

***Materion Polisi a Safonau***

**i) Sgiliau Iaith Staff**

Mae 69% o staff yr adran wedi cwblhau yr hunanasesiad iaith. Mae'r pocedi o weithwyr nad ydynt wedi cwblhau'r hunan asesiad l'w gweld bennaf yn y timau ble mae nifer uchel o staff achlysurol, a staff heb fynediad i gyfrifiadur.

Mae 93.8% o staff yr adran yn cyrraedd y dynodiad iaith eu swydd. Mae 21 aelod o staff ar hyn o bryd nad ydynt yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Mae gennym 3 aelod o staff yn mynychu hyfforddiant iaith ar hyn o bryd.

Byddwn yn parhau i annog cwblhau'r hunanasesiad drwy ein rheolwyr, ac yn adnabod pecyn cefnogaeth l'r rheiny nad ydynt yn cyrraedd eu dynodiad iaith.

## ii) Rhwystrau

**Recriwtio** - Mae problemau recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn fater sy'n peri pryder i'r adran. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o orfod recriwtio gweithwyr cymdeithasol di-Gymraeg a/neu ddefnyddio gweithwyr cymdeithasol di-Gymraeg drwy asiantaeth er mwyn gallu darparu gwasanaeth mae'r adran wedi mynd ati i ddatblygu Cynllun Gweithlu. Mae ymgyrchoedd recriwtio amrywiol wedi eu gwneud gan yr adran a drwy Gofalwn Cymru, a rydym wedi defnyddio pwysigrwydd y gallu i siarad Cymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth, a'r gallu i fyw mewn cymunedau naturiol Cymraeg yn rhan o'r pecyn recriwtio hwnnw.

**Cyfarfodydd** - Mae cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda partneriaid yn gallu bod yn heriol ar adegau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda partneriaid. Nid yw nifer o'n partneriaid yn cynnig darpariaeth gyfieithu / Cymraeg mewn cyfarfodydd rhithiol. Rydym yn cynnal y mwyafrif o'n cyfarfodydd aml asiantaethol yn ddwyieithog, gyda chefnogaeth gan Uned Gyfieithu'r Cyngor.

**Darpariaeth / Lleoliadau tu hwnt i Wynedd a Chymru** – Rydym eisoes wedi cyfeirio at y cyfyngiadau sydd arnom wrth sicrhau lleoliad gofal dwys i blentyn o Wynedd y tu allan i'r sir. Yn yr un modd rydym hefyd yn bryderus am anghenion ieithyddol troseddwyr ifanc sydd yn derbyn dedfryd o garchar. Er nad oes gennym yr un person ifanc wedi derbyn dedfryd o garchar ers sawl blwyddyn bellach, mae'n bosib i hynny newid a phetai yn digwydd nid oes gennym fel Gwasanaeth Cyfiawnder / Adran unrhyw reolaeth dros ddynodi lleoliad y ddedfryd, a gall person ifanc fynd i unrhyw leoliad drwy'r DU sy'n gwanhau cysylltiad person ifanc gyda'i deulu, iaith, diwylliant. Yr ydym wedi cynnwys y mater yma ar ein Cofrestr Risg Adrannol gan ein bod yn credu fod pobl ifanc o Wynedd yn cael eu rhoi dan anfantais o ran eu dewis a'u defnydd o'u hiaith gyntaf mewn carchar.

## iii) Canmoliaeth a Chwynion.

Rydym yn ymwybodol o achos un person ifanc sydd yn ein gofal, ac wedi ei leoli mewn lleoliad sydd heb ei gofrestru oherwydd diffyg lleoliad cofrestredig addas iddo, ei fod yn anfodlon fod y staff sydd yn gofalu amdano yn ddi-Gymraeg. Mae hyn yn bryder gwirioneddol i'r gwasanaeth ac yn arwydd o'r sefyllfa heriol sydd yn ein wynebu wrth geisio dod o hyd i leoliadau addas i blant yn ein gofal sydd yn cyfarfod eu holl anghenion, gan gynnwys eu anghenion ieithyddol.

### Cwestiwn 3

Cyfleoedd newydd

***Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?***

Mae'r Adran yn parhau i hyrwyddo a chefnogi y defnydd o'r Gymraeg ymhob un o'r gwasanaethau. Mae darparu gwasanaethau i gymunedau Gwynedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth.

Byddwn yn parhau i sicrhau fod ein holl ymwneud â'n partneriaid yn gwbl ddwyieithog ac yn hyrwyddo pwysigrwydd y defnydd o'r iaith a'r dewis iaith i drigolion y Sir, a thrwy hynny ddylanwadu ar ymarfer mewn sefydliadau tu allan i'r Cyngor.

Byddwn yn parhau i annog unrhyw aelod o staff y gwasanaeth i fynychu cyrsiau i ddysgu'r iaith neu i loywi iaith er budd trigolion Gwynedd ac rydym eisoes yn arddel yr arfer o sicrhau fod y staff sydd yn ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, unai i gyflwyno eu hunain neu i gyflwyno eitem yn y Gymraeg er mwyn adeiladu hyder mewn amgylchedd ddiogel. Yr ydym yn gwybod fod hyn yn talu ar ei ganfed a bod iaith yn datblygu drwy hyder a chefnogaeth cydweithwyr.

# Eitem 9

|                            |  |
|----------------------------|--|
| <b>CYFARFOD:</b>           | <b>PWYLLGOR IAITH</b>  |
| <b>DYDDIAD:</b>            | <b>27 Mehefin 2023</b>   |
| <b>TEITL:</b>              | <b>Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith</b>   |
| <b>AWDUR:</b>              | <b>Gwenllian Mair Williams<br/>Ymgynghorydd Iaith</b>  |
| <b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b> | <b>Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt argymhelliad i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad</b> |

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn unol a gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor *"lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy."*

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
  - bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
  - bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
  - bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
  - nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

1.4 Gan fod gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau Iaith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2023, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor, a gofynnir iddynt roi eu hargymhelliad iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan yr Aelod Cabinet.

1.5 Bydd angen i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2023.

## **2 CRYNODEB O'R ADRODDIAD**

2.1 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddi-ofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- 99.4% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar rhyw fath o sgiliau yn y Gymraeg.
- 93% o staff y Cyngor yn cyrraedd lefel Sylfaen neu yn uwch, ac felly yn gallu siarad Cymraeg
- 833 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

2.2 Rhoddir gwybodaeth hefyd am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn i wella cydymffurfiaeth efo'r Safonau.

- Polisi iaith newydd wedi ei gyhoeddi, ynghyd a pholisïau atodol, megis y polisi dyfarnu grantiau, er mwyn ateb gofynion penodol o fewn y safonau.
- Cymryd camau penodol i wella cydymffurfiaeth wrth ymgynghori ar benderfyniadau polisi
- Adolygiad o systemau TG wedi ei gychwyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Polisi o ran arddel enwau Cymraeg, a'r Safonau o ran ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg neu ddwyieithog.

2.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai o'r heriau y bydd yr Uned Iaith a Chraffu a gwasanaethau ar draws y Cyngor, yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a'r cynnig rhagweithiol Cymraeg.

## **3 ARGYMHELLION**

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blyneddol,
- cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, a:
- argymhell i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2023.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**  
**CYNGOR GWYNEDD**  
**AR WEITHREDIAD SAFONAU'R**  
**GYMRAEG**

**Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023**

**Cynnwys yr adroddiad**

**RHAGAIR**

**CRYNODEB**

- 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau**
- 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau yn ystod 2022-23**
  - 2.1 Adlewyrchu ar y flwyddyn
  - 2.2 Camau gweithredu penodol a gymerwyd i gryfhau cydymffurfiaeth
- 3. Heriau wrth symud ymlaen**
- 4. Adrodd yn unol â gofynion Safon 170**
  - 4.1 Trosolwg sgiliau iaith
  - 4.2 Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori" yn y Safon
  - 4.3 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd efo sgiliau iaith Gymraeg
  - 4.4 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
  - 4.5 Safon 170: Adrodd ar gwynion iaith

## **RHAGAIR**

**Gan y Cynghorydd Menna Trenholme , Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd, gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg yn ystod 2022-23**

Rwyf yn hynod falch o'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn y Cyngor i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn gallu defnyddio ein holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn ymfalchïo yn yr adroddiad hwn sy'n dystiolaeth o'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Mabwysiadwyd y Polisi Iaith newydd yn ystod 2022, gydag adolygiad trylwyr wedi arwain at nifer o newidiadau sydd wedi cryfhau'r polisi, a'r arweiniad sydd yn cael ei roi i staff, ac yn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol i'r trigolion.

Gwnaed datganiad pwysig wrth fabwysiadu'r polisi newydd, hefyd, gyda'r Cyngor yn penderfynu codi statws cyhoeddus yr iaith, ac yn cryfhau ei ymrwymiad i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'w wasanaethau ac yn y gymuned, drwy alw ei hun wrth ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, yn unig o hyn ymlaen, a hefyd i arddel fersiynau Cymraeg o enwau llefydd a strydoedd yn unig wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd.

Rydym wrthi yn cynllunio y gwaith hybu a hyrwyddo ar gyfer y blynyddoedd nesaf nawr, gyda'r gwaith o ddatblygu a sefydlu Strategaeth iaith y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf wedi cychwyn. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y strategaeth ddrafft newydd ei gynnal ac edrychaf ymlaen i gael rhannu cynnwys y strategaeth derfynol yn y misoedd nesaf.

Braf hefyd oedd gweld Fforwm Iaith Gwynedd yn cael ei sefydlu dan arweiniad y Cyngor, er mwyn creu gofod trafod a chyd-gynllunio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth fynd at i hybu a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill gan y Cyngor fydd yn rhoi lle blaenllaw i ffyniant cymunedol a ffyniant yr iaith yn y dyfodol , ac felly wyf yn falch bod Cyngor Gwynedd yn parhau i arwain y gad, ac i edrych y tu hwnt i ddarparu dwyieithog yn unig, drwy roi anghenion y trigolion ac ymrwymiad i weithredu er lles y Gymraeg yn gyntaf.



## CRYNODEB



- 99.4%** = nifer staff y Cyngor cyfan sydd yn meddu ar rhyw fath o **sgiliau** yn y Gymraeg
- 93%** = nifer staff sydd efo sgiliau lefel Sylfaen neu uwch
- 91%** = nifer staff sydd yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd

**833** o swyddi wedi eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol**.



Gwaith ymchwil wedi ei gomisiynu i ddatblygu dealltwriaeth am arferion ieithyddol defnyddwyr gwasanaethau.

Pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn ddi-ofyn.





## 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi Iaith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonau-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx>

## 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau yn ystod 2022-23

### 2.1 Adlewyrchu ar y flwyddyn

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau Iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith.

Cafodd y Polisi Iaith diweddaraf ei fabwysiadu yn ystod 2022, gyda nifer o newidiadau wedi eu gwneud i'r polisi blaenorol er mwyn rhoi gwell eglurder i staff am sut i weithredu mewn gwahanol sefyllfaoedd, yn enwedig rhai nad ydynt yn cael eu cwmpasu yn uniongyrchol neu amlwg gan ofynion y Safonau, ac hefyd i gryfhau ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ei wasanaethau ac yn y gymuned.

Drwy fabwysiadu'r polisi newydd, pasiwyd y penderfyniad hefyd i'r Cyngor alw ei hun wrth ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, yn unig o hyn ymlaen, ac hefyd i arddel fersiynau Cymraeg o enwau llefydd a strydoedd yn unig wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Mae hyn yn gam pwysig wrth godi statws cyhoeddus yr iaith, ac i fod yn rhagweithiol wrth roi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

Mae ymwybyddiaeth o'r angen i weithredu yn unol â'r Polisi yn dda o fewn gwasanaethau'r Cyngor, ac mae trefniadau monitro yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae trefniadau hunanasesu blynyddol bellach mewn lle, gyda phob adran o fewn y Cyngor yn gorfod adrodd ar gydymffurfiaeth i'r Uned ac i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Rydym hefyd wedi edrych yn ystod y flwyddyn ar y ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau gyda chyd-weithwyr, ac wedi creu tudalen newydd ar fewnwyd y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth gyda staff am faterion yn ymwneud efo'r Polisi Iaith a'r Safonau. Mae adnoddau megis copi o logo newydd uniaith y Cyngor, a thempledi ar gyfer y datganiadau sydd yn ofynnol i ni eu cynnwys mewn dogfennau a gohebiaeth, wedi eu gosod ar y fewnwyd er mwyn i staff gael gafael arnynt yn hawdd pan fydd eu hangen. Ers cyhoeddi'r Polisi Iaith newydd, rydym wedi bod yn rhannu negeseuon cyson gyda staff er mwyn eu hatgoffa am y gofynion mewn gwahanol feysydd, ac felly yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r Safonau.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith dydd i ddydd yn dal i fod yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiodyn. Mae'r angen i ystyried y Gymraeg, a rôl y Cyngor wrth gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau, hefyd yn arfer naturiol, ac ni wneir unrhyw benderfyniad ar newidiadau i wasanaethau, neu wrth ddatblygu cynlluniau strategol, heb fod y Gymraeg a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r cynlluniau hynny.

Mae'r Cyngor yn parhau i arwain a mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau wrth osod gofynion iaith wrth recriwtio ac hefyd wrth gynnal ei holl gyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg, yn ddi-ofyn. Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sydd yn cynnwys yr uned gyfieithu, wedi gweithio yn galed i oresgyn y rhwystrau oedd yn ein hwynebu wrth symud i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac aml-leoliad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wedi sicrhau na chafodd rhediad a chyfrwng iaith cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor eu amharu o gwbl, a bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael bob amser er mwyn galluogi'r di-Gymraeg i gymryd rhan lawn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dechreuwyd ar ddarn o waith ymchwil PhD dan ofal Prifysgol Bangor, fydd yn edrych ar agweddau pobl tuag at ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith ymchwil hwn yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni ddylanwadu ar benderfyniadau ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (yn enwedig rhai digidol/ar-lein) sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor.

Mae ymgynghorwyr iaith y Cyngor hefyd yn aelodau o Is-Grŵp y Gymraeg sydd yn rhan o strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd prosiect ei gwblhau ar ran yr Is-grŵp y Gymraeg yn ystod y flwyddyn oedd yn edrych ar y ffyrdd mae'r cyrff yn ceisio dylanwadu ar ddefnydd iaith y cyhoedd mewn gwasanaethau rheng flaen. Dewiswyd nifer o dderbynfeydd, yn y Cyngor ac mewn sefydliadau partner yn y gwasanaethau cyhoeddus, i fod yn rhan o'r gwaith ymchwil. Yn sgil hynny datblygwyd adnodd hyfforddiant staff ac awgrymiadau i staff er mwyn annog y cyhoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Wrth i ni edrych ar ddatblygu a sefydlu Strategaeth iaith nesaf y Cyngor, cafodd fforwm iaith sirol ei sefydlu ar gyfer y sir, dan arweiniad yr Uned Iaith a Chraffu, fydd yn fodd o sicrhau ein bod yn ymwybodol o waith partneriaid yn y maes ac i alluogi trafod a chyd-gynllunio bwriadus ac adeiladol rhwng partneriaid a rhanddeiliaid allweddol wrth fynd at i hybu a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae fforwm fewnol newydd wedi eu sefydlu yn ystod y flwyddyn hefyd er mwyn goruchwyllo gwaith yr adrannau Oedolion a Plant yng nghyd-destun fframwaith Mwy na Geiriau. Mae swyddogion o'r Uned Iaith a Chraffu yn mynychu'r fforwm er mwyn sicrhau bod gofynion y Safonau hefyd yn cael eu hamlygu a'u gweithredu ochr yn ochr gyda gofynion Mwy na Geiriau.

### **Camau gweithredu penodol a gymerwyd i gryfhau cydymffurfiaeth**

- **Mabwysiadu Polisi Iaith Newydd**

Cafodd y polisi iaith diwygiedig ei fabwysiadu yn ffurfiol yn Hydref 2022.

Cafodd **Gweithdrefn Gwynion (gofyn Safonau 156, 162, 168)** a dogfen bolisi ar Weithdrefn **Dyfarnu Grantiau a'r Gymraeg (gofyn Safon 94)** eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi arweiniad penodol i staff ar y materion hynny.

Mae cydweithio wedi bod rhwng swyddogion yr adran Economi a Chymuned a'r ymgynghorwyr iaith er mwyn addasu cymalau ac amodau grantiau er mwyn ceisio sicrhau y budd gorau, a bod unrhyw arian sydd yn cael ei dyrannu gan y Cyngor yn arwain at effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae'r amodau a'r system sgorio sydd wedi ei datblygu ar gyfer cronfeydd arian Arfor 2 yn enghraifft dda o hyn, ac yn cael eu defnyddio ar draws pedair sir cadarnle'r Gymraeg.

- **Strategaeth Hybu (Safonau hybu 145, 146)**

Cyhoeddwyd strategaeth bresennol Cyngor Gwynedd yn 2018. Rydym bellach yng nghanol y broses o adolygu strategaeth hybu y Cyngor a llunio strategaeth newydd ar gyfer 2023 ymlaen. Cafodd strategaeth ddiwygiedig ei drafftio yn ystod Ionawr – Mawrth 2023, gyda drafft ymgynghori yn cael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 28 Mawrth 2023.

- **Safonau Llunio Polisi (Safonau 88-93)**

Mae cryn oedi wedi bod i ryddhau a defnyddio'r fersiwn ddigidol o'r asesiad effaith integredig, ond rydym yn dal i weld cynnydd yn nifer yr asesiadau sydd yn cael eu cyflwyno gydag adroddiadau i'r Cabinet, yn defnyddio'r fersiwn papur interim.

Yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiynydd, ac hefyd yn sgil penderfyniad achos tribiwnlys ac arweiniad pellach gan y Comisiynydd, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ein cydymffurfiaeth a'n dealltwriaeth o'r union ddisgwyliadau yn y maes hwn.

Cymerwyd camau penodol i wella cydymffurfiaeth efo Safonau 91, 92 a 93, sydd yn gosod y disgwyliad o ran gofyn barn wrth ymgynghori, gyda chwestiynau safonol wedi eu llunio a'u rhannu gyda'r gwasanaeth Cyfathrebu, sydd yn gyfrifol am gydlynu nifer fawr o ymgynghoriadau a phrosesau ymgysylltu y Cyngor.

Rydym hefyd wedi rhannu canllaw byr a chwestiynau safonol ar y mewnrwyd, a byddwn yn addasu'r canllaw yn ôl yr angen ac wrth i'n dealltwriaeth am ddiffiniad y Comisiynydd o'r Safonau ddatblygu.

Mae'r ffaith ein bod yn cael ymholiadau rheolaidd i gynghori ar gwestiynau ymgynghori a chynnwys yr asesiadau effaith yn dangos bod yr ymwybyddiaeth am yr angen hwn yn gwella.

- **Ymateb i ohebiaeth dorfol (Safon 4) – Adolygiad systemau TG**

Mae gwaith yn parhau ar wirio systemau TG y Cyngor er mwyn gwirio eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg y cyhoedd.

Mae'r sylw pennaf ar hyn o bryd ar sicrhau bod pob system sydd yn anfon gohebiaeth at y cyhoedd yn gallu defnyddio cyfeiriadau Cymraeg yn unig, yn defnyddio enw a logo uniaith Cyngor Gwynedd, ac yn cydymffurfio gyda gofyn Safon 4.

- **Datganiadau ar ddogfennau (Safonau 7, 49, 50A)**

Cymerwyd nifer o gamau i gydymffurfio gyda'r safonau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae templedi safonol wedi eu creu ar gyfer y gwahanol fathau o ddatganiadau sydd eu hangen. Anfonwyd negeseuon i staff yn codi ymwybyddiaeth am yr angen i weithredu a chynnwys datganiad ar 4 achlysur gwahanol yn ystod y flwyddyn.

Gan fod hwn yn ofyn rydym ond newydd ddechrau ei weithredu a'i fonitro, rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i ymwybyddiaeth dreiddio ac i'r defnydd o'r datganiadau gael ei brif ffrydio. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal gwiriadau ar hap achlysurol er mwyn cadw golwg ar y defnydd o ddatganiadau, ac yn cymryd unrhyw gamau pellach fel bo eu hangen i atgoffa staff.

### **3. Heriau wrth symud ymlaen – materion sydd angen sylw**

- **Gweithredu a chodi ymwybyddiaeth am ofynion y Safonau**

Mae dealltwriaeth dda am yr angen i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a phwysigrwydd y cynnig rhagweithiol i'r cyhoedd, ond mae'n cymryd amser i unrhyw ofynion neu arferion sydd yn mynd y tu hwnt i hynny wreiddio.

Bydd atgoffa staff am ddisgwyliadau'r Polisi Iaith a gofynion y Safonau yn waith parhaus. Mae'r disgwyliadau ar staff o ran pwysau gwaith a'r angen i gydymffurfio gyda gwahanol ofynion statudol a chorfforaethol yn cynyddu drwy'r adeg, ac mae'n mynd yn fwy heriol i sicrhau bod pob maes yn cael y sylw mae ei angen. Mae trosiant staff rheolaidd hefyd yn her, gyda'r arferion gwaith hybrid newydd, lle nad yw timau bob amser efo'i gilydd wyneb yn wyneb, yn golygu ei bod yn fwy heriol trosglwyddo negeseuon yn effeithiol i staff.

Bydd angen i ni feddwl yn greadigol am ffyrdd o gael y negeseuon yma i staff er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cael eu gweithredu yn llawn a chyson.

- **Strategaeth iaith**

Bydd sicrhau trefniadau monitro effeithiol ar gyfer y strategaeth newydd yn allweddol, yn ogystal a datblygu perchnogaeth ymysg adrannau'r Cyngor o'r cynlluniau a'r blaenoriaethau. Mae'r adrannau eisoes yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Iaith ar weithrediad y Safonau a'r Polisi, ond bydd disgwyl iddynt roi mwy o wybodaeth a data am gynlluniau sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth newydd o hyn ymlaen. Bydd y rhaglen waith fydd yn cael ei llunio ar gyfer y strategaeth yn hwyluso hyn.

- **Hyfforddiant**

Mae mwyafrif yr hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu yn uniongyrchol i staff gan y Cyngor yn cael ei gynnal yn Gymraeg, gyda rhai cyrsiau ar gael yn Saesneg hefyd. Rydym yn gwneud ymdrech hefyd i gyfuno sesiynau a darparu yn ddwyieithog, os yw hynny yn bosib.

Serch hynny, mae hwn yn faes lle rydym wedi gweld newid yn y data dros y blynyddoedd diwethaf a bydd angen i ni gadw golwg arno i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi pob cyfle ac anogaeth posib i'n staff i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac hefyd eu bod yn cael pob cyfle posib i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Byddwn yn gweithio dros y misoedd nesaf ar ddatblygu'r ddarpariaeth hyfforddiant iaith, er mwyn sicrhau bod gan staff y Cyngor y sgiliau a'r wybodaeth orau posib er mwyn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

Mae'r modiwl ymwybyddiaeth iaith yn un o'r e-fodiwlau mandadol hynny y mae disgwyl i bob aelod o staff cyflogedig ei gwblhau, ac felly byddwn yn disgwyl gweld cynnydd yn y nifer sydd yn cwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae gwaith ar droed yn gorfforaethol i wella cyfraddau cwblhau y modiwlau craidd yma, ac hefyd i adolygu cynnwys yr e-fodiwl er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gyfoes.

#### **4. Adrodd yn unol â gofynion safon 170**

***Gofynion Adrodd Safon 170:***

**(1)** Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

**(2)** Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) –

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

#### 4.1 Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith

Mae'r wybodaeth am ddynodiad iaith swyddi a sgiliau iaith staff i gyd yn cael ei gasglu yn awtomatig ar y System Sgiliau Iaith. Mae'r system yn ein galluogi i weld faint o staff sydd efo'r sgiliau iaith cyfatebol i ddynodiad y swydd ac i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg, er mwyn tracio cynnydd a newidiadau ar draws adrannau.

Mae'r wybodaeth isod felly yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac wedi ei dynnu o'n System Sgiliau Iaith.

O safbwynt sgiliau'r staff, mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

|   | Cwestiwn   | Ateb                                       |
|---|--|--|
| 1 | A yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?  | Ydi / Nac ydi                              |
| 2 | Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwranddo a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu? | Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, |

|  |  |                 |
|--|--|-----------------|
|  |  | Uwch, Hyfedredd |
|--|--|-----------------|

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell:** yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff:** mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwranddo a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae timau rheoli pob adran yn derbyn adroddiadau rheolaidd (chwarterol neu ddwywaith y flwyddyn) gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu, yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf o ran dynodiadau iaith eu staff. Mae rhannu'r adroddiadau rheolaidd yma yn ffordd i adrannau wybod lle mae nhw arni o ran sgiliau eu staff, i adnabod unrhyw newidiadau, ac i adnabod unrhyw unigolion allai fod angen cefnogaeth i ddatblygu sgiliau (llafar neu ysgrifenedig).

Mae fforwm fewnol wedi ei sefydlu, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob adran o'r Cyngor, a lle byddwn yn trafod yr adroddiadau sgiliau iaith, ac unrhyw rwystrau o ran casglu asesiadau neu o ran targedu hyfforddiant. Mae'r adborth rydym wedi ei gael gan y swyddogion ar y fforwm yma wedi bod yn werthfawr iawn ac wedi ein galluogi i wneud pethau megis treialu holiaduron papur gyda rhai gwasanaethau lle nad yw'r staff mor debygol o fod yn defnyddio cyfrifiaduron wrth eu gwaith, er mwyn cynyddu'r nifero sydd yn cwblhau'r hunanasesiad.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, mae modd ymateb yn rhagweithiol i hynny. Mae felly yn ein galluogi i deilwra hyfforddiant yn well.

## 4.2 Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"

### 4.2.1 Swyddi a hysbysebwyd sydd wedi eu categorio yn hanfodol

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol** = **833**  
*(1318 hysbyseb wedi ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn)*

Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd = 0

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol = 0

Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol = 0



#### Sylwer:


- Mae **pob swydd** a gaiff ei hysbysebu gan y Cyngor yn nodi gofynion iaith fel sgil **hanfodol**, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.

#### 4.2.2 Asesu a Gosod Lefelau Iaith Swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

Mae'r tabl isod yn dangos y dynodiad, neu'r lefel ieithyddol sydd wedi ei osod ar gyfer pob swydd gyfredol ar draws y Cyngor.

Mae lefel sgiliau iaith un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel Siarad a Gwrando fel 'prif lefel' ar gyfer pwrpas adrodd lefelau swydd gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.

Mae'n dangos felly bod mwy o swyddi wedi cael eu hadnabod fel rhai lle mae sgiliau Canolradd neu Uwch eu hangen i gyflawni'r swydd dan sylw.



#### 4.3 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd efo sgiliau yn y Gymraeg

#### Sylwer:

- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau'r gweithlu ar unrhyw

gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.

- Nid ydym yn adrodd yma ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol - GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Byw'n Iach, staff Ysgolion – oherwydd nad ydynt yn dod yn uniongyrchol dan ofynion y Safonau neu bod trefniadau atebolrwydd gwahanol. Serch hynny, mae gwasanaeth Byw'n Iach yn cadw data cyfredol ac yn rhan o'r Fforwm Iaith (Mae gofyn i asesu a monitro sgiliau yn rhan o ymrwymiad cytundebol Byw'n Iach gyda'r Cyngor), ac mae gwaith ar droed i gydweithio gyda'r adran addysg ac gasglu asesiadau staff ysgolion hefyd. Nid yw'r ffaith bod y data ddim yn cael ei adrodd yma yn golygu nad oes data ar gael.

#### 4.3.1 Trosolwg gyffredinol – nifer staff gyda sgiliau yn y Gymraeg:

|   | 2021-22     |       | 2022-23     |       |
|---|-------------|-------|-------------|-------|
| <b>Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*</b>     | <b>3822</b> |       | <b>3886</b> |       |
| <b>Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)</b> | 2799        | 99.1% | <b>2726</b> | 99.4% |
| <b>Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg</b>                    | 26          | 0.9%  | <b>15</b>   | 0.6%  |

|  |  |  |             |     |
|--|--|--|-------------|-----|
| <b>Staff sydd yn cyrraedd lefel Sylfaen ac uwch (gallu siarad Cymraeg)</b> |  |  | <b>2549</b> | 93% |
|--|--|--|-------------|-----|

#### 4.3.2 Nifer asesiadau a gynhaliwyd:

|  | 2021-22     |     | 2022-23     |     |
|--|-------------|-----|-------------|-----|
| <b>Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*</b>                              | <b>3822</b> |     | <b>3886</b> |     |
| <b>Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd</b><br>(Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau) | 2825        | 74% | <b>2932</b> | 75% |
| <b>Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd yn unig (Cwestiwn 2)*</b>                          | 2633        | 69% | <b>2741</b> | 71% |

\*nid yw'n cynnwys staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, na Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru na staff ysgolion Gwynedd

#### 4.3.3 Nifer staff sydd yn cyrraedd dynodiad eu swydd:

|  | 2021-22 |     | 2022-23     |     |
|--|---------|-----|-------------|-----|
| <b>Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b> | 2584    | 91% | <b>2679</b> | 91% |

|   |     |    |     |    |
|---|-----|----|-----|----|
| Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau iaith eu swydd | 241 | 9% | 253 | 9% |
|---|-----|----|-----|----|


Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Uwch neu Hyfedredd.

**Noder:** Uwch yw'r lefel uchaf a osodir ar gyfer dynodiad iaith swydd, ond mae posib i sgiliau iaith yr unigolion gael eu hasesu ar lefel Hyfedredd. Mae hyn yn golygu bod nifer fawr o staff yn meddu ar sgiliau iaith sydd yn uwch na'r angen ar gyfer eu swyddi.

2022- 2023

#### 4.3.4 Lefelau iaith y staff fesul adran:

\*Er hwylustod, talfyrrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn yn y tabl nesaf



|                    | Addysg (heb gynnwys ysgolion) | Amgylchedd | Cyllid | Cefnogaeth Gorfforaethol | Economi a Chymuned | Oedolion, Lechyd a Llesiant | Plant a Chefnogi Teulu | Prifysgol, Peirianneg a YGC | Tai ac Eiddo | Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol |
|--------------------|-------------------------------|------------|--------|--------------------------|--------------------|-----------------------------|------------------------|-----------------------------|--------------|----------------------------------|
| <b>Hyfedredd</b>   | 208                           | 103        | 142    | 128                      | 96                 | 313                         | 203                    | 122                         | 79           | 28                               |
| <b>Uwch</b>        | 146                           | 58         | 70     | 37                       | 42                 | 201                         | 74                     | 108                         | 48           | 14                               |
| <b>Canolradd</b>   | 54                            | 19         | 7      | 5                        | 12                 | 72                          | 12                     | 24                          | 13           | 1                                |
| <b>Sylfaen</b>     | 36                            | 8          | 1      | 0                        | 5                  | 43                          | 8                      | 6                           | 3            | 0                                |
| <b>Mynediad</b>    | 40                            | 9          | 0      | 0                        | 1                  | 91                          | 8                      | 4                           | 5            | 0                                |
| <b>Dim sgiliau</b> | 4                             | 0          | 0      | 0                        | 0                  | 11                          | 0                      | 0                           | 0            | 0                                |

Mae nifer y swyddogion sydd a sgiliau hyfedredd – sef rhuglder – wedi cynyddu ar draws pob adran bron. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer staff yr adrannau Amgylchedd,

Cyllid, Priffyrdd sydd efo sgiliau Uwch – gallai hyn fod oherwydd bod mwy o’r adrannau hyn bellach wedi cwblhau hunanasesiad.

#### 4.3 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

*Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o’r cwrs.*

**Safon 128:** Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o’r fath yn Saesneg -

- (a) recriwtio a chyf-weld;
- (b) rheoli perfformiad;
- (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- (ch) ymsefydlu;
- (d) delio â’r cyhoedd; ac
- (dd) iechyd a diogelwch.

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cyrsiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu’n ddwyieithog.

Dim ond pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i wella darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i’r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

#### Hyfforddiant Cyffredinol

Mae’r gwasanaeth Dysgu a Datblygu’r Sefydliad yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ar gyfer adrannau canolog y Cyngor, ac hefyd yn darparu i BYW’N IACH, Cefnffyrdd, GWE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, ac Aelodau Etholedig y Cyngor. Mae’r wybodaeth isod ar gyfer yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer adrannau canolog y Cyngor yn unig, sef yr adrannau sydd yn atebol i ofynion y Safonau. Rhoi’r gwybodaeth am hyfforddiant a ddarperir yn ganolog ar gyfer y gwasanaeth Byw’n Iach ar wahân isod.

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.22 a 31.03.23 - **892**

Nifer y teitlau (lefel Swydd/Sefydliad) rhwng 01.04.22 a 31.03.23 - **221**

| DIGWYDDIADAU<br>HYFFORDDI | NIFER      | MYNYCHWYR<br>UNIGRYW |
|---------------------------|------------|----------------------|
| Cymraeg                   | <b>428</b> | <b>1409</b>          |
| Saesneg                   | <b>295</b> | <b>881</b>           |

|            |     |     |
|------------|-----|-----|
| Dwyieithog | 169 | 519 |
|------------|-----|-----|

**Y newid ers 2019:**

|            | NIFER DIGWYDDIADAU |         |         | MYNYCHWYR UNIGRYW |         |         |
|------------|--------------------|---------|---------|-------------------|---------|---------|
|            | 2019-20            | 2020-21 | 2021-22 | 2019-20           | 2020-21 | 2021-22 |
| Cymraeg    | 463                | 289     | 524     | 1805              | 1044    | 1612    |
| Saesneg    | 225                | 305     | 402     | 1021              | 796     | 1032    |
| Dwyieithog | 222                | 92      | 46      | 765               | 453     | 159     |

**Safon 128-**

**73** unigolyn wedi mynychu'r gweithdy croeso yn y cyfnod 01.04.22 – 31.03.23

**8** digwyddiad wedi ei gynnal. **Pob un trwy cyfrwng y Gymraeg.**

Yn ddiweddar rydym wedi penderfynu cynnal y gweithdai croeso ar Zoom er mwyn sicrhau darpariaeth cyfieithu i'r rhai sydd ei angen. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid cynnal sesiynau 'corfforaethol' uniaith Saesneg.

Nifer sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn ystod y flwyddyn - **0**

Nifer staff sydd wedi cwblhau yr e-fodiwl YI - lefel Cyngor ac adran - **611**

**Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:**

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.22 a 31.03.23 – **78**

Nifer y teitlau rhwng 01.04.22 - 31.03.23 - **17**

| DIGWYDDIADAU<br>HYFFORDDI | NIFER     | MYNYCHWYR<br>UNIGRYW |
|---------------------------|-----------|----------------------|
| Cymraeg                   | <b>22</b> | <b>21</b>            |
| Saesneg                   | <b>17</b> | <b>42</b>            |
| Dwyieithog                | <b>39</b> | <b>89</b>            |

## 5.4 Adrodd ar gwynion iaith

*Nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*

Yn unol â threfniadau atebolrwydd ac adrodd mewnol y Cyngor, caiff unrhyw gwynion neu ymholiadau am wasanaethau sydd yn cael eu derbyn mewn perthynas â'r Safonau neu Bolisi Iaith y Cyngor eu cofnodi gan yr Uned Iaith a Chraffu, a'u hadrodd i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Darparwyd adroddiad llawn ar gwynion y flwyddyn Mawrth 2021 i Fawrth 2022 i gyfarfod mis Ebrill 2022 y Pwyllgor Iaith.

(i'w osod ar ôl cyfieithu – adroddiad wedi ei gyfieithu yn barod ar gyfer y PI)

**Cwynion ac ymholiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg – yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau iaith**

### 2.1 CS1038 Arwydd “Aber Dwyrdd”, Maentwrog (Medi 2022):

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn am ddefnydd o enw anghywir ar arwydd wrth arosfan bws Maentwrog. Cadarnhawyd nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am osod y llun a'r enw “Aber y Dwyrdd” ar yr arwydd, a bod y Cyngor wedi darparu lluniau newydd i Traws Cymru eu gosod ar yr arwydd digidol. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ymlaen i ymchwilio i'r mater.

### 2.2 CS1026 Gohebiaeth gan y gwasanaeth Llyfrgelloedd (Mehefin 2022):

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y gwasanaeth llyfrgelloedd. Cadarnhaodd y gwasanaeth bod hyn wedi digwydd ond mai camgymeriad gyda'r system atebion awtomatig oedd yn gyfrifol. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ymlaen i ymchwilio i'r mater.

### 2.3 CS1002 Gohebiaeth gwasanaeth Cyllid (Ebrill 2022)

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn bod aelod o'r cyhoedd wedi derbyn gohebiaeth gan y gwasanaeth Pensiynau yn Saesneg yn unig, ac hefyd wedi derbyn gohebiaeth Gymraeg lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bu ymchwiliad llawn i'r achos hwn. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am y sefyllfa yma o'r cychwyn, ac wedi esbonio bod y sefyllfa wedi codi o ganlyniad i gamgymeriad unigol, ac oherwydd bod yr amgylchiadau penodol dan sylw (gohebiaeth wedi ei anfon at deulu yn sgil marwolaeth unigolyn oedd yn derbyn pensiwn athrawon) yn gofyn i'r swyddog weithredu mewn ffordd wahanol i'r drefn arferol.

Derbyniwyd dyfarniad terfynol ym mis Mai 2023, oedd yn nodi barn y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 5, 6 a 7. Mae hyn ar y sail

- bod y llythyr gwreiddiol wedi ei anfon yn Saesneg, ac nad oedd y Cyngor yn gwybod a oedd yr unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg,
- bod yr ail ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg yn cynnwys gwallau, oedd yn golygu ein bod wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac
- nad oedd y llythyrau anfonwyd yn cynnwys y datganiadau safonol sydd yn gwahodd y derbynnydd i ymateb yn Gymraeg, ac yn nodi y bydd y Cyngor yn ymateb yn Gymraeg.

Mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu gosod yn y dyfarniad er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio yn llawn. Byddwn yn gosod camau gweithredu ac yn ymateb i'r dyfarniad a'r camau gweithredu dros yr wythnosau nesaf.

#### **2.4 CS102 Ymgynghoriad Ysgol Abersoch (Rhagfyr 2021)**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn nad oedd y Cyngor wedi dilyn prosesau ymgynghori priodol ac nad oedd wedi ymgynghori yn ddigonol gyda thrigolion lleol nac wedi ystyried yn ddigonol effaith y penderfyniad i gau Ysgol Abersoch ar y Gymraeg a'r gymuned. Cafwyd ymchwiliad llawn a thrylwyr i'r gwyn yma. Rydym wedi derbyn canlyniad drafft yr ymchwiliad, sydd yn nodi barn y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 91, 92 a 93, sef y safonau sydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ofyn cwestiwn penodol am effaith penderfyniad ar y Gymraeg wrth ymgynghori. Mae'r dyfarniad drafft yn nodi, serch hynny, na wnaeth y Cyngor fethu a chydymffurfio gyda Safonau 88, 89 a 90, sef y Safonau sydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i asesu ac ystyried effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Darparwyr swm sylweddol o dystiolaeth gan y Cyngor oedd yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau yn sgil y cyfnod ymgynghori oedd yn dangos bod y Cyngor wedi ystyried yr effeithiau posib yn ofalus, ac mae'r adroddiad gan y Comisiynydd yn cydnabod bod y Cyngor wedi rhoi "ystyriaeth gydwybodol" i'r effeithiau.

Roedd y dyfarniad am fethu a chydymffurfio gyda Safonau 91, 92 a 93 yn seiliedig ar y ffaith na ofynnwyd y cwestiynau cywir wrth ymgynghori. Roedd yr adran addysg wedi dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer y broses ymgynghori, ac nid oedd y canllawiau hynny wedi rhoi arweiniad ar sut i ddilyn gofynion y Cod a'r Safonau ar yr un pryd.

Nid oedd y Cyngor o'r farn bod peidio â gofyn y cwestiynau penodol am effaith ieithyddol wedi amharu ar allu unigolion i fynegi barn am effaith y penderfyniad ar y Gymraeg, ac roedd nifer fawr o sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan drigolion lleol fel rhan o'r broses ymgynghori ac wedi eu hystyried wrth asesu effaith y penderfyniad, ond rydym yn derbyn bod methiant wedi bod o ran cydymffurfio gydag union ofyn y Safonau hyn.

Mae'r camau gweithredu sydd yn cael eu cynnig i gryfhau ein trefniadau wrth ymgynghori yn rai sydd eisoes ar y gweill neu eisoes wedi eu cyflawni gan y Cyngor.

**CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

| Adran   | Nifer y Cwynion | Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o   | Esboniad a chymau a gymerwyd   |
|---|-----------------|--|--|
| <b>Cefnogaeth Gorfforaethol (Ionawr 2023)</b>               | 1               | Cwyn nad oedd modd nodi eu bod yn ddysgwr Cymraeg ar yr holiadur cydraddoldeb sydd yn cael ei ddefnyddio efo ymgynghoriadau cyhoeddus.   | <p>Mae'r cwestiwn safonol sydd yn cael ei ddefnyddio yn cyd-fynd gyda'r cwestiwn am allu ieithyddol sydd yn ymddangos yn y cyfrifiad. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i gymharu data sydd yn dangos a yw ymatebwyr i ymgynghoriadau yn gynrychioladol o boblogaeth Gwynedd.</p> <p>Wedi trafod y cwestiwn gyda swyddogion perthnasol o'r tîm ymchwil, cyfathrebu a chydraddoldeb, penderfynwyd treialu cwestiwn newydd, sydd yn gofyn am lefel gallu a sgiliau mewn ffordd wahanol, ac yn cynnwys opsiwn i nodi os yw rhywun yn ddysgwr. Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r ddau ymgynghoriad sydd yn treialu'r cwestiwn i weld a yw'r ffurf yma yn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol i ni.</p> <p>Anfonwyd ymateb i'r achwynydd yn diolch iddynt am ddod a'r mater i'n sylw ac yn esbonio'r newid rydym yn ei dreialu.</p> |
| <b>Cefnogaeth Gorfforaethol / Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b> | 1               | Cwyn bod polisi recriwtio'r Cyngor yn annheg wrth fynnu bod angen bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Roedd gan yr unigolyn nam clyw oedd yn golygu na allai ddeall na dysgu Cymraeg yn dda. Gan ei fod dan yr argraff bod y gofynion ieithyddol ar swyddi yn golygu bod angen bod yn rhugl, teimlai na allai ymgeisio am swydd efo'r Cyngor. Roedd wedi ei droi i ffwrdd o ganolfan ailgylchu'r Cyngor wrth geisio cyflwyno CV am nad oedd yn gallu siarad Cymraeg. Teimlai felly bod y polisi yn gwahaniaethu yn ei erbyn. | <p>Anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynydd am yr ymateb a gafodd yn y ganolfan ailgylchu, ac esboniwyd y polisi o ran gosod gofynion iaith ar swyddi.</p> <p>Edrychwyd ar un o'r swyddi oedd dan sylw gan yr achwynydd (swydd gyrru LGV) a chadarnhau mai lefel Sylfaen/Mynediad oedd y gofynion iaith ar gyfer y swydd honno.</p> <p>Roedd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhan o ymateb i'r gwyn hon hefyd gan fod yr achwynydd yn honni gwahaniaethu ar sail anabled.</p> <p>Mae cam gweithredu posib i'r gwyn yma i edrych ar y geiriad sydd yn cael ei ddangos mewn swydd ddisgrifiadau er mwyn sicrhau bod y gofynion yn glir ac yn ddealladwy i'r trigolion sydd yn ymgeisio am swyddi.</p>   |
| <b>Byw'n Iach</b>   | 1               | Derbyniwyd cwyn am ddefnydd o'r Saesneg mewn gwersi nofio.   | Trafodaethau wedi eu cynnal rhwng y tîm rheoli a'r swyddog datblygu nofio a chynllun gwaith wedi ei lunio ganddynt i fynd i'r afael a'r mater. Y sefyllfa wedi codi yn ddiweddar yn sgil problemau   |



|               |          |   |   |
|---------------|----------|---|---|
|               |          |   | <p>staffio arweiniodd at yr angen i benodi swyddogion nofio gyda'r cymwysterau cywir, ond nad oedd yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.</p> <p>Esboniad wedi ei anfon at yr achwynydd.</p>   |
| <b>Cyllid</b> | <b>1</b> | <p>Cwyn am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg gan gwmni Excel, sydd yn darparu gwasanaeth casglu dyledion ar ran y Cyngor</p> | <p>Amgylchiadau gan y cwmni (salwch staff a phroblemau recriwtio) wedi golygu nad oedd siaradwr Cymraeg rhugl ar gael ar y diwrnod y ffoniodd yr achwynydd oedd yn gallu delio efo'r alwad ac ateb ei ymholiad yn llawn yn Gymraeg. Mae'n rhan o'r cytundeb gyda'r cwmni bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac maent wedi gweithio yn galed i sicrhau'r gwasanaeth drwy recriwtio a hyfforddi gweithwyr lleol yn hytrach na recriwtio o dros y ffin. Er bod y gwasanaeth a ddarperir fel arfer yn ateb gofynion y cytundeb, mae'r gwasanaeth Cyllid yn ystyried a ellir dod a'r gwaith dan sylw yn fewnol i'r Cyngor yn y dyfodol.</p> |

## 1. Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2022-2023

### Cyflwyniad

Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod 2022-2023:

- Cyrsiau cymunedol dros flwyddyn academiaidd (gwersi wythnosol ar-lein neu wyneb i wyneb)
- Cyrsiau haf Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy)
- Cyrsiau hunanastudio ar-lein e.e. *Hunanastudio Iefel Mynediad, cyrsiau Blasu Cymraeg Gwaith a Gwella Cymraeg Gwaith*
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith (ar-lein neu wyneb i wyneb)
- Cyrsiau a gomisiynwyd yn arbennig ar lefelau amrywiol
- Y Dystysgrif Sgiliau Iaith
- Cynllun mewnol Cyfeillion Cymraeg

### Rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn

Dysgwyr o'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mynychodd rheolwr sy'n gweithio yn y maes therapi galwedigaethol gwrs dwys yn Nant Gwrtheyrn fis Mawrth 2023, a hynny yn dilyn cwrs blaenorol yno yn 2020. Oherwydd awydd y rheolwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg, dylanwadodd ar 2 o aelodau o staff eraill sy'n gweithio yn yr un maes, ac fe aethant hwythau ar gwrs dwys i Nant Gwrtheyrn fis Mawrth 2023 hefyd, gydag un yn parhau i ddilyn cwrs wythnosol.

Cyrsiau comisiwn

Yn dilyn llwyddiannau cyrsiau comisiwn y blynyddoedd diwethaf, penderfynwyd dal ati gyda'r dosbarth Canolradd a chynnig cwrs Gloywi Iaith unwaith eto eleni. Oherwydd anghenion amrywiol ein gweithlu, mae'r cyrsiau hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd gan hefyd gynnig y cyfle i staff ddod i adnabod ei gilydd yn well. Dyma fanylion y cyrsiau a drefnwyd:

| Lefel                    | Manylion y cwrs               | Nifer y mynychwyr | Rhagor o wybodaeth   |
|--------------------------|-------------------------------|-------------------|--|
| Canolradd Rhan 2         | Gwersi wythnosol 3 awr o hyd  | 6                 | O ganlyniad i lwyddiant y cwrs Canolradd ar gyfer staff Byw'n Iach, Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Economi a Chymuned a drefnwyd yn ystod cyfnod Covid-19, trefnwyd dilyniant rhwng mis Medi 2021 a Gorffennaf 2022. Mae'r holl aelodau o staff a oedd yn mynychu bellach wedi cwblhau'r cwrs lefel Canolradd.           |
| Gloywi Iaith             | 6 sesiwn awr a hanner         | 8                 | Yn dilyn llwyddiant cwrs Gloywi Iaith blaenorol a drefnwyd trwy Cymraeg Gwaith, trefnwyd cwrs arall er mwyn cynnig y cyfle eto i staff ar draws holl adrannau'r Cyngor a oedd wedi dangos diddordeb mewn hyfforddiant o'r fath. Braf yw gweld bod staff yn parhau i fod yn awyddus i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith. |
| Tystysgrif Sgiliau Iaith | Gwersi wythnosol dros 2 dymor | 8                 | Wedi cynnal peilot o gwrs i gynnig y cyfle i staff y Cyngor gwblhau'r Dystysgrif ar y cyd â Chanolfan Bedwyr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, penderfynwyd mynd ati i drefnu'r cwrs unwaith eto. Y gobaith yw y bydd modd cynnal y cwrs yn flynyddol o hyn ymlaen. Mae nifer o  |

|  |   |
|--|---|
| (Medi-Rhagfyr 2022 a Chwefror-Ebrill 2023) | aelodau o staff y Cyngor yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau iaith, ac mae gallu cael tystysgrif ar y diwedd yn wych er mwyn dangos eu datblygiad proffesiynol. |
|--|---|

## Cynllun Cyfeillion Cymraeg

Lansiwyd ein cynllun Cyfeillion Cymraeg yn 2019 er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd yn y gweithle a pharhau i hogi eu gallu yn yr iaith y tu allan i'r dosbarth, a hynny yng nghwmni siaradwyr rhugl ar draws y sefydliad. Cafodd y Cynllun ei groesawu gan nifer o siaradwyr rhugl y Cyngor hefyd, gan ei fod yn gyfle iddynt gefnogi dysgwyr ar eu taith ddysgu a chynnig cymorth a chlust i wrando mewn awyrgylch anffurfiol.

Erbyn diwedd Mawrth 2023 roedd 5 unigolyn yn derbyn cefnogaeth gan 5 'Cyfaill'. Mae'r cyfle i gael sgysiau anffurfiol gydag aelodau eraill o staff y Cyngor yn profi i fod yn werthfawr iawn i ddysgwyr, gyda nifer yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymarfer a gofyn cwestiynau. Y gobaith yw bod y sesiynau hyn yn cefnogi eu gwersi ffurfiol ac yn eu helpu i fagu hyder.


Byddwn yn parhau gyda'r cynllun presennol gan chwilio am ragor o Gyfeillion i gefnogi dysgwyr yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Mae'r tablau isod yn cynnig rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant iaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2022-2023.**


### NIFER Y MYNYCHWYR YN ÔL MATH/TEITL CYRSIAU

| Cwrs  | Nifer Unigolion |
|---|-----------------|
| <b>Mewnol</b>                                 |                 |
| Cynllun Cyfeillion Cymraeg                    | 5               |
| <b>Allanol</b>                                |                 |
| Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg               | 13              |
| Cyrsiau dwys                                  | 12              |
| Cyrsiau hunanastudio ar-lein (Cymraeg Gwaith) | 2               |
| Comisiynau amrywiol                           | 23              |
|   | 55              |

## NIFER MYNYCHWYR YN ÔL MATH A LEFEL Y CWRS



Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draws adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:



# Eitem 10

|                            |   |
|----------------------------|---|
| <b>CYFARFOD:</b>           | <b>PWYLLGOR IAITH</b>   |
| <b>DYDDIAD:</b>            | <b>27 Mehefin 2023</b>  |
| <b>TEITL:</b>              | <b>Canlyniadau Ymgynghori Strategaeth Iaith Gwynedd 2023</b>  |
| <b>AWDUR:</b>              | Gwenllian Mair Williams, Ymgynghorydd Iaith a<br>Nia Wyn Vaughan, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg  |
| <b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b> | <b>Cyflwyno canlyniadau cychwynnol yr ymgynghoriad gan y gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, a gwahodd sylwadau gan yr aelodau am ymateb posib yr Uned Iaith a Chraffu wrth lunio'r strategaeth derfynol.</b> |

## 1 CEFNDIR

- 1.1 Gosodir gofyn ar y Cyngor o fewn Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i lunio strategaeth 5 mlynedd sydd yn nodi sut y maent yn bwriadu mynd ati i hyrwyddo a hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir, a sut mae'n bwriad cyfrannu at amcanion cenedlaethol Cymraeg 2050 i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg.
- 1.2 Gan fod cyfnod y strategaeth hybu bresennol yn dod i ben yn yr Hydref, dechreuwyd ar broses adolygu yn gynnar yn 2023. Cynhaliwyd sesiynau trafod yn ystod mis Ionawr gydag aelodau Cabinet, aelodau'r Pwyllgor Iaith ac aelodau Fforwm Iaith Gwynedd er mwyn hel syniadau a chael eu mewnbwn ar gynnwys posib y strategaeth.
- 1.3 Lluniwyd drafft ymgynghori o'r strategaeth newydd ar sail y trafodaethau hynny a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori ar y strategaeth ddrafft rhwng **17 Ebrill a 21 o Fai 2023**.
- 1.4 Cafodd y strategaeth ddrafft, felly, ei chreu fel dilyniant i waith y strategaeth bresennol (*Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23*) er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac i fodloni'r gofynion statudol a osodir o fewn Safonau'r Gymraeg. Y weledigaeth yw creu strategaeth gynhwysol sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

## 2 CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

- 2.1 Lluniwyd holiadur, oedd yn gofyn nifer o gwestiynau er mwyn casglu barn y cyhoedd ar gynnwys y strategaeth ddrafft, yr amcanion oedd wedi eu nodi, a'r meysydd gweithredu oedd yn cael eu hawgrymu. Gellir gweld copi o'r cwestiynau ymgynghori yn **Atodiad 2**.
- 2.2 Cafwyd **159 o ymatebion** i'r ymgynghoriad ar lein, ac mae'r adroddiad dadansoddi sydd wedi ei gyflwyno yn **Atodiad 1** yn adlewyrchu'r ymatebion hynny. Derbyniwyd 1 ymateb dros e-bost (nad oedd yn dilyn y templed cwestiynau ymgynghori) a bydd yr Ymgynghorwyr Iaith yn ystyried cynnwys yr ymateb hwnnw ochr yn ochr gyda chanlyniadau llawn yr ymatebion ar-lein.

- 2.3 Cafwyd trawstoriad da o ymatebion o bob rhan o'r sir. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr rhwng 35 a 74 oed. Dim ond 3 ymateb gafwyd gan bobl dan 34 oed, sydd ychydig yn bryderus, a bydd angen i ni ystyried yn ofalus sut yr ydym yn casglu barn y garfan yma o'r gymuned yn y dyfodol.
- 2.4 Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i gynnwys y strategaeth ddrafft yn dda. Roedd y gyfradd gytuno ar gyfer ffrydiau gwaith pob maes gweithredu yn uchel. Roedd 72.3% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.5 O ran y themâu cyffredin oedd yn codi o'r ymatebion, roedd sicrhau cyfleoedd digonol ac addas i bobl ddysgu Cymraeg ac i fagu hyder wrth siarad Cymraeg yn thema a gododd yn rheolaidd, ac mewn ymateb i sawl cwestiwn. Roedd sylwadau llai cadarnhaol megis na ddylai'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu, ac na ddylid gwastraffu adnoddau prin ar yr iaith hefyd yn themâu a gododd fwy nag unwaith.

### **3 CAMAU NESAF**

- 3.1 Bydd angen i'r Ymgynghorwyr iaith nawr ystyried pa newidiadau neu addasiadau y dylid eu gwneud i'r strategaeth derfynol er mwyn ymateb i rai o'r sylwadau yn yr ymgynghoriad. Er enghraifft, er ein bod wedi nodi dylanwad technoleg fel un o'r prif heriau sydd yn wynebu ffyniant y Gymraeg yng Ngwynedd, roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi nodi dylanwad cyfryngau cymdeithasol fel her. Bydd angen i ni ystyried felly sut mae dylanwad y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei amlygu ac yn cael sylw dan y thema technoleg, ac hefyd a oes yna unrhyw camau y gallwn eu cymryd i geisio cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol dan wahanol feysydd gweithredu.
- 3.2 Byddwn yn adolygu'r strategaeth ddrafft ar sail yr ymgynghori, ac yn rhannu'r drafft terfynol gydag adrannau mewnol er mwyn gallu adnabod yr union ffrydiau gwaith fydd yn ateb yr amcanion ac yn creu y rhaglen waith gychwynnol.
- 3.3 Bwriedir cyflwyno drafft terfynol y strategaeth i Gabinet y Cyngor ym mis Hydref 2023

### **4 ARGYMHELLION**

- 2.1 Gofynnir i'r aelodau:
- dderbyn y dadansoddiad cryno a gyflwynir yn Atodiad 1 gan y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg
  - cynnig unrhyw sylwadau ar y cynnwys a'r ymatebion ac am addasiadau posib i'r strategaeth derfynol mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad
2. Bwriad y Strategaeth
3. Meysydd Gweithredu
4. Effaith y Cynllun
5. Atodiad A - Cwestiynau Cydraddoldeb
6. Atodiad B – Llythyr yn ymateb i'r ymgynghoriad

**1. Cyflwyniad**

Mae'r Strategaeth iaith yn cael ei chreu fel rhan o ofynion statudol Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cynhaliwyd ymgynghoriad er mwyn casglu barn y cyhoedd am gynnwys fersiwn drafft o Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033. Mae'r strategaeth ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad Cyngor Gwynedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ledled y sir ac yn tynnu sylw at y prosiectau a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Cyngor a'r cyfleoedd newydd i hyrwyddo defnydd o'r iaith. Y nod yw cyhoeddi'r strategaeth derfynol cyn diwedd y flwyddyn.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw o **17eg o Ebrill hyd at 21ain o Fai**. Derbyniwyd un llythyr yn ymateb i'r ymgynghoriad. Gweler y llythyr yn Atodiad B.

Cafwyd 159 o ymatebion i'r holiadur, i gyd wedi'u derbyn ar-lein. Mae tabl 1 yn dangos ym mha ardal roedd yr ymatebwyr yn byw. Gweler Atodiad A ar gyfer nodweddion cydraddoldeb yr ymatebwyr.

**Tabl 1: Ymatebwyr fesul 13 Ardal Adfywio Gwynedd**

| Ardal                               | Nifer      | Canran        |
|-------------------------------------|------------|---------------|
| Ardal Pen Llŷn                      | 12         | 8.0%          |
| Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth | 10         | 6.7%          |
| Bro Ardudwy                         | 17         | 11.3%         |
| Bro Dysynni                         | 11         | 7.3%          |
| Bro Ffestiniog                      | 6          | 4.0%          |
| Bro Lleu / Nantlle                  | 11         | 7.3%          |
| Bro Ogwen                           | 11         | 7.3%          |
| Bro Peris                           | 9          | 6.0%          |
| Dalgylch Bala / Penllyn             | 4          | 2.7%          |
| Dalgylch Bangor                     | 13         | 8.7%          |
| Dalgylch Caernarfon                 | 12         | 8.0%          |
| Dalgylch Dolgellau                  | 10         | 6.7%          |
| Dalgylch Pwllheli                   | 14         | 9.3%          |
| Heb nodi yn llawn                   | 9          | 6.0%          |
| Tu allan i Wynedd                   | 1          | 0.7%          |
| <b>Cyfanswm</b>                     | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |

Bu i 150 o'r ymatebwyr ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolion, gyda 6 wedi ateb unai fel rhan o'u swydd neu ar ran busnes gyda 3 arall wedi ateb fel "arall".



## 2. Bwriad y Strategaeth


Bwriad y Strategaeth yw gosod gweledigaeth y cyngor ar gyfer hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Roedd y strategaeth ddrafft yn nodi meysydd gweithredu ac amcanion posib ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir. Roedd hefyd yn cynnig targed ar gyfer cynyddu nifer siaradwyr.

### 2.1 Cynyddu Cyfleoedd

Mae'r strategaeth yn nodi mai'r bwriad yw canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda hyn yng nghwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

Mae'r graff 1 isod yn dangos yr ymateb, ble roedd 72.3% (n=115) o'r ymatebwyr yn cytuno, 18.2% (n=29) yn anghytuno, tra bod 9.4% (n=15) unai heb farn neu heb ateb y cwestiwn.

**Graff 1: Cytuno neu anghytuno gyda'r bwriad i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**



Bu i 112 o'r ymatebwyr fynd ymlaen i esbonio pam roeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r bwriad i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gwelir y prif resymau yn tabl 2 isod. Roedd modd iddynt nodi mwy nac un rheswm.

**Tabl 2: Rhesymau pam yn cytuno neu anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm   | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| <b>Cytuno</b> - angen cynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg                                 | 36    | 32%    |
| <b>Cytuno</b> - angen mwy o gyfleoedd i ddysgwyr allu ymarfer defnyddio eu Cymraeg         | 24    | 21%    |
| <b>Cytuno</b> - angen annog y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg ei ddefnyddio ar bob achlysur | 23    | 21%    |
| <b>Cytuno</b> - gan bod defnydd o'r iaith wedi dirywio                                     | 11    | 10%    |
| <b>Cytuno</b> - Cymraeg ddylai'r brif iaith fod yng Nghymru                                | 10    | 9%     |
| <b>Anghytuno</b> - dewis personol ddylai defnyddio'r iaith Gymraeg                         | 10    | 9%     |
| <b>Anghytuno</b> - dim digon o adnoddau i wireddu hyn pan mae cymaint o broblemau eraill   | 9     | 8%     |

|   |   |    |
|---|---|----|
| <b>Anghytuno</b> - Ni ddylai'r Cyngor defnyddio'r iaith Gymraeg fel esgus i wahaniaethu | 8 | 7% |
| <b>Cytuno</b> - angen gwerthu'r iaith fel sgil werthfawr ym myd gwaith                  | 5 | 4% |
| <b>Cytuno</b> - ond dylai Cymraeg a Saesneg gael yr un statws                           | 5 | 4% |
| <b>Anghytuno</b> - dim digon o alw am ddefnyddio'r iaith tu allan i Gymru               | 4 | 4% |
| <b>Cytuno</b> - Troi i'r Saesneg wedi mynd yn rhy gyffredin                             | 4 | 4% |
| <b>Cytuno</b> - angen deddfu bod rhaid i fusnesau ddefnyddio Cymraeg                    | 3 | 3% |
| <b>Cytuno</b> - gormod o gyfathrebu Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol                 | 2 | 2% |
| <b>Anghytuno</b> - gwersi Cymraeg dwi wedi bod arnynt yn warthus                        | 1 | 1% |
| <b>Anghytuno</b> - dydy safon sgiliau Saesneg plant ddim digon da                       | 1 | 1% |

## 2.2 Prif Heriau


Rhoddyd rhestr o'r prif heriau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd yng nghwestiwn 2 a chyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda nhw.

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Defnydd iaith pobl ifanc
- Statws y Gymraeg yn y gymuned
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Creu siaradwyr newydd
- Dylanwad technoleg
- Sylfaen tystiolaeth
- Heriau demograffig a daearyddol

Mae graff 2 isod yn dangos y canlyniadau gyda'r her gafodd ei chydabod fwyaf ar y chwith. Mae technoleg yn chwarae rôl gynyddol amlwg ym mywydau pobl, gyda'r Saesneg yn aml yn brif iaith creu a defnyddio technoleg, ac roedd 69% (n=109) yn cytuno gyda'r her yma o Ddylanwad Technoleg ar yr iaith. Yr her gyda mwyaf o farn gymysg oedd Sylfaen Tystiolaeth sef yr her o ddiffyg ymchwil a thystiolaeth gyffredol i brofi cyswllt ac effaith ffactorau penodol, megis yr economi a thwristiaeth, ar yr iaith. Tra roedd 50% (n=79) yn cytuno gyda'r her yma nid oedd 30% (n=48) ddim yn siŵr am yr her yma a gyda 17% (n=27) yn anghytuno.

Mae'r canlyniadau yn eithaf cyson ar draws y gwahanol heriau a nodwyd.

**Graff 2:** Cytuno neu anghytuno gyda'r prif heriau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd



Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ychwanegu unrhyw her arall oeddynt yn credu y dylid eu hystyried. Bu i 66 ymatebwr wneud sylw.

**Tabl 3:** Heriau ychwanegol – wedi eu grwpio i themau

| Her  | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Cefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg i gynyddu eu hyder                                | 16    | 24%    |
| Problem ail gartrefi yn ein cymunedau a mewnlifiad pobl di-Gymraeg                                 | 10    | 15%    |
| Dylanwad cyfryngau cymdeithasol  | 9     | 14%    |
| Ni ddylai'r Cyngor defnyddio'r iaith Gymraeg fel esgus i wahaniaethu                               | 7     | 11%    |
| Angen defnyddio'r Gymraeg o fewn sector celfyddydau a diwylliant                                   | 6     | 9%     |
| Angen mwy o gyfleon gwaith yng Ngwynedd  | 5     | 8%     |
| Sicrhau na fydd pobl di-Gymraeg yn cael eu dieithrio - angen cael y balans yn gywir                | 5     | 8%     |
| Gweithio gyda busnesau lleol i annog defnydd y Gymraeg   | 5     | 8%     |
| Y pwyslais ar addysg Gymraeg yn llesteirio dyfodol plant   | 5     | 8%     |
| Annog Cymraeg fel iaith naturiol sgwrs hyd yn oed os oes rhai Saesneg yn bresennol                 | 4     | 6%     |
| Y Cyngor i ddefnyddio llai o iaith Gymraeg ffurfiol  | 4     | 6%     |
| Cadw pobl yn eu cymunedau  | 3     | 5%     |
| Diffyg gwasanaethau yn ardaloedd gwledig yn arwain at ddirywiad yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg | 2     | 3%     |
| Pwyslais ar bwysigrwydd darllen llyfrau Cymraeg yn yr ysgolion                                     | 2     | 3%     |
| Polisiâu tai a chynllunio gwlad a thref yn allweddol i ddiogelu strwythur ein cymunedau            | 2     | 3%     |
| Annog mwy o ddisgyblion i wneud pynciau yn yr ysgol drwy'r iaith Gymraeg                           | 1     | 2%     |
| Does dim angen na diddordeb mewn dysgu Cymraeg   | 1     | 2%     |
| Sicrhau cefnogaeth ariannol i gylchoedd meithrin   | 1     | 2%     |
| Angen gadael i'r iaith ddatblygu yn naturiol   | 1     | 2%     |


**2.3 Gosod targed - Cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd**

Roedd y strategaeth ddrafft yn cynnig dau fwrriad ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd a rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno ar ddwy ffordd mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hyn yng nghwestiwn 4.

- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg, i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus
- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid

Wrth edrych ar y canlyniadau yn graff 3 nid oedd gwahaniaeth amlwg yn y nifer sydd yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffyrdd awgrymedig o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

**Graff 3: Cyfleoedd i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg**



I'r rhai oedd yn anghytuno gydag unrhyw un o'r heriau roedd modd iddynt nodi eu rhesymau. Bu i 16 ymatebwr anghytuno gyda'r cyfle i gynyddu siaradwyr Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc, tra roedd 20 ymatebydd yn anghytuno gyda'r cyfle ymysg oedolion. Mae tabl 4 isod yn cyfuno rhesymau ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion.

**Tabl 4: Rhesymau pam yn cytuno neu anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm  | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Heb roi rheswm  | 6     | 29%    |
| Gwastraff arian cyhoeddus   | 5     | 24%    |
| Saesneg ydy iaith y byd   | 3     | 14%    |
| Llawer rhy anodd dysgu iaith newydd pan yn oedolyn - dylid canolbwyntio ar blant a phobl ifanc      | 2     | 10%    |
| Gwneud i bobl di-Gymraeg deimlo yn ddinasyddion ail-ddosbarth                                       | 2     | 10%    |
| Safon addysg Saesneg yn warthus yng Ngwynedd  | 1     | 5%     |
| Rhieni gwrth gymreig yn llesteirio unrhyw obaith cael plant di-Gymraeg i ddysgu'r iaith yn yr ysgol | 1     | 5%     |
| Bydd yn rhoi hwb i genedlaetholdeb Cymreig  | 1     | 5%     |

Rhodddwyd y siawns i'r ymatebwyr gynnig unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Bu i 59 wneud sylw pellach. Mae'r sylwadau wedi eu crynhoi yn tabl 5 isod.

**Tabl 5: Syniadau eraill sut i gynyddu siaradwyr Cymraeg – wedi eu grwpio i themau**

|  | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Gwersi/sesiynau anffurfiol Cymraeg hygyrch i bawb, boed yn ddysgwyr neu yn siaradwr Cymraeg angen gwella sgiliau                   | 17    | 29%    |
| Rhoi cymhelliad ariannol i fusnesau i gael polisi dwyieithog   | 7     | 12%    |
| Rhoi'r dewis i bobl pa iaith mae nhw eisiau defnyddio  | 7     | 12%    |
| Cynnal mwy o weithgareddau dwyieithog  | 6     | 10%    |
| Gwastraff arian llwyr  | 5     | 8%     |
| Ni ddylai fod plant Gwynedd yn ddi-Gymraeg gan eu bod yn derbyn addysg Gymraeg   | 4     | 7%     |
| Rôl y gymuned yn helpu dysgwyr - bod fwy goddefgar o ddysgwyr  | 4     | 7%     |
| Mwy o angen am addysg cyfrwng Saesneg na Chymraeg  | 4     | 7%     |
| Creu cyfleoedd economaidd i gadw siaradwyr Cymraeg yn lleol  | 3     | 5%     |
| Polisi enwau Cymraeg yn unig   | 2     | 3%     |
| Gwella cefnogaeth i gylchoedd meithrin   | 2     | 3%     |
| Sicrhau trosglwyddo iaith yn y teulu   | 2     | 3%     |
| Creu cynllun 'Cymraeg i Rieni' ar gyfer rhieni di-Gymraeg i ddysgu'r iaith ar yr un pryd ag y mae eu plant yn ei dysgu yn yr ysgol | 2     | 3%     |
| Rhagrith ymysg y rhai sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg   | 2     | 3%     |
| Angen chwalu'r myth bod angen gallu siarad Cymraeg perffaith i wiethio i Gyngor Gwynedd  | 1     | 2%     |
| Angen defnyddio llawer mwy ar gyfryngau cymdeithasol i hybu'r iaith  | 1     | 2%     |
| Cyngor i ddefnyddio iaith llai ffurfiol mewn dogfennau swyddogol   | 1     | 2%     |
| Pwysau ar werthwyr tai i hysbysebu mai ardal Gymraeg ydy Gwynedd pan yn gwerthu tai  | 1     | 2%     |
| Dylai lles a ffyniant y Gymraeg fod yn amod wrth bennu bwriadau polisiau economaidd  | 1     | 2%     |
| Targedu cefnogaeth ar gyfer y sectorau ble mae wir angen gweithlu Cymraeg  | 1     | 2%     |

### 3 Meysydd Gweithredu


Rhodddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi y meysydd gweithredu mewn trefn o ran pwysigrwydd yng ngwestiwn 3, gyda'r mwyaf pwysig yn cael ranc 1 i'r lleiaf pwysig yn cael ranc 5.

- Iaith Blynyddoedd Cynnar
- Iaith Dysgu
- Iaith Gwaith a Gwasanaeth
- Iaith y Gymuned
- Technoleg ac Ymchwil

Mae graff 4 isod yn dangos y canlyniadau. Gellir gweld yn glir mae'r maes gweithredu mae'r ymatebwyr yn gredu sydd bwysicaf ydi iaith Blynyddoedd Cynnar gyda 65% (n=103) wedi ei nodi unai

fel blaenoriaeth 1 neu 2. Ar y llaw arall y maes gweithredu Technoleg ac Ymchwil sydd wedi derbyn y ganran isaf o flaenoriaeth 1 a 2 gyda 17% (n=27).

**Graff 4: Trefn pwysigrwydd y meysydd gweithredu**



Yng nghwestiynau 5 i 9, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi barn ar rai o'r amcanion posib y mae'r Cyngor wedi eu hadnabod o dan bob un o'r meysydd blaenoriaeth, ac fe welir ddadansoddiad o'r ymatebion isod.

**3.1 Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r Cyngor wedi adnabod 5 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Blynyddoedd Cynnar. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 6 isod sydd hefyd yn nodi'r ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 6: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Blynyddoedd Cynnar**

|  | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|--|--------|-----------|---------------------|
| Codi ymwybyddiaeth rhieni am y gyfundrefn addysg Gymraeg ac amlygu'r cyfleoedd sydd yna iddynt gael eu cyflwyno i'r Gymraeg cyn i'r plant gyrraedd oed ysgol           | 76%    | 14%       | 10%                 |
| Ystyried cyfleoedd anffurfiol i rieni ymarfer a magu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg – megis sesiynau sgwrsio/dysgu tra bod y plant mewn gwersi a chlybiau ar ôl ysgol | 75%    | 13%       | 12%                 |
| Sicrhau bod gan bob teulu y modd i gael gafael ar adnoddau cyfrwng Cymraeg   | 74%    | 13%       | 13%                 |

|   |     |     |     |
|---|-----|-----|-----|
| Parhau i sicrhau amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd ifanc  | 72% | 13% | 15% |
| Cydweithio rhwng y Cyngor a'r Mudiad Meithrin er mwyn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod grwpiau Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin yn cael y gefnogaeth briodol i dyfu a ffynnu | 68% | 13% | 19% |

Mae tabl 7 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 29 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 7: Rhesymau pam yn anghytuno - wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm   | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Heb roi rheswm   | 15    | 52%    |
| Ni ddylai neb gael ei orfodi i siarad Cymraeg                        | 8     | 28%    |
| Gwynedd yn rhoi argraff nad ydy mewnfudwyr yn cael eu croesawu       | 4     | 14%    |
| Gwastraff adnoddau prin  | 4     | 14%    |
| Ni ddylai'r Cyngor defnyddio'r iaith Gymraeg fel esgus i wahaniaethu | 3     | 10%    |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal   | 2     | 7%     |

Holwyd, ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 32 (20%) bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 8 isod.

**Tabl 8: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

|  | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Addysgu rhieni pa mor bwysig ydy gallu siarad dwy iaith  | 8     | 25%    |
| Gwynedd yn rhoi argraff nad ydy mewnfudwyr yn cael eu croesawu                                   | 6     | 19%    |
| Gwella gweithgareddau ieuencid mewn ardaloedd llai Cymraeg                                       | 4     | 13%    |
| Heb nodi'r awgrym  | 3     | 9%     |
| Annog rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda eu plant  | 3     | 9%     |
| Angen helpu mudiadau meithrin - gormod ohonynt yn cau  | 2     | 6%     |
| Angen i'r Cyngor fod yn prynu tai gwag i ddefnydd pobl leol                                      | 2     | 6%     |
| Angen sicrhau felly bod gwaith yn yr ardal er mwyn cadw siaradwyr Cymraeg yma                    | 2     | 6%     |
| Sicrhau bod profiad rhieni di-gymraeg yn un pleserus pan maent yn mynychu gweithgareddau Cymraeg | 1     | 3%     |
| Rhoi amod ar grantiau cymunedol bod angen defnyddio'r Gymraeg                                    | 1     | 3%     |
| Angen cymorth ar blant gyda anghenion dysgu ychwanegol drwy'r iaith Gymraeg                      | 1     | 3%     |
| Dysgu pobl am ddiwylliant a hanes Cymru  | 1     | 3%     |
| Angen chwalu'r myth bod angen gallu siarad Cymraeg perffaith i weithio i Gyngor Gwynedd          | 1     | 3%     |
| Angen llawer mwy o apiau Cymraeg   | 1     | 3%     |
| Diddymu 'r rheolau cynllunio tai i bobl leol   | 1     | 3%     |

**3.2 Iaith y Gymuned**

Mae'r Cyngor wedi awgrymu 6 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu iaith y Gymuned. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 9 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 9: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth iaith y Gymuned – wedi eu grwpio i themau**

|  | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|--|--------|-----------|---------------------|
| Ceisio cefnogi mwy o fentrau cymunedol i greu gweithgareddau a chynlluniau economaidd fydd yn elwa'r cymunedau eu hunain   | 74%    | 13%       | 13%                 |
| Annog mwy o gynlluniau cyfeillion a sesiynau sgwrsio er mwyn cynorthwyo a magu hyder dysgwyr i wneud y cam o ddysgu mewn gwersi i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned  | 74%    | 14%       | 12%                 |
| Datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol, yn enwedig felly yn y cymunedau digidol   | 70%    | 20%       | 10%                 |
| Edrych ar ffyrdd o fesur defnydd iaith yn gymunedol er mwyn gallu blaenoriaethau a chynllunio ymyraethau   | 67%    | 18%       | 15%                 |
| Dadansoddi data'r cyfrifiad ac edrych ar y wybodaeth o wahanol ymgynghoriadau, ac o waith asesu llesiant y sir er mwyn datblygu dealltwriaeth o be mae "cymuned" yn ei olygu yn y Gwynedd fodern                           | 64%    | 13%       | 23%                 |
| Cydweithio gyda phartneriaid Fforwm Iaith Sirol er mwyn canfod cyfleoedd i gynyddu'r cyfleoedd cymdeithasu cyfrwng Gymraeg a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu mewn ardaloedd lle mae diffyg cyfleoedd ar hyn o bryd | 64%    | 19%       | 17%                 |

Mae tabl 10 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 46 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 10: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm   | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Heb roi rheswm   | 30    | 65%    |
| Gwastraff adnoddau - problemau eraill angen blaenoriaeth                               | 7     | 15%    |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal                     | 2     | 4%     |
| Ni ddylid gorfodi addysg Gymraeg   | 2     | 4%     |
| Does dim awch na'r angen gan bobl i ddysgu Cymraeg                                     | 1     | 2%     |
| Angen cyd-lynu gwell rhwng gwaith mentrau cymdeithasol / Y Cyngor a'r Cyngorau Cymuned | 1     | 2%     |
| Dim pwynt trio cael oedolion i ddysgu Cymraeg - rhy anodd                              | 1     | 2%     |
| Angen blaenoriaethu'r un peth sydd am wneud y gwahaniaeth mwyaf                        | 1     | 2%     |
| Mae'r byd yn newid ac yn anffodus Saesneg ydi'r iaith                                  | 1     | 2%     |
| Canlyniadau'r cyfrifiad ddim yn ddibynadwy   | 1     | 2%     |
| Siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif   | 1     | 2%     |



Holwyd, ar gyfer y maes iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 24 (15%) nodi bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 11 isod.

**Tabl 11: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

|   | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Cefnogi mentrau cymdeithasol/mudiadau sydd yn bodoli yn barod   | 7     | 29%    |
| Clybiau sgwrsio   | 5     | 21%    |
| Dathlu ein cymunedau dwy-ieithog a pheidio gwahaniaethu   | 3     | 13%    |
| Peidio gwastraffu adnoddau prin ar yr iaith Gymraeg   | 2     | 8%     |
| Gwersi Gymraeg hygyrch  | 2     | 8%     |
| Cefnogaeth ariannol i fusnesau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg   | 1     | 4%     |
| Sicrhau bob pawb yn siarad Cymraeg  | 1     | 4%     |
| Gwario llai ar strategaethau a pholisiau a gwario'r arian ar ein system addysg i feithrin siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol | 1     | 4%     |
| Angen esbonio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a hanes Cymru i ddisgyblion  | 1     | 4%     |
| Rhoi blaenoriaeth i geisiadau grant ar gyfer digwyddiadau Cymraeg   | 1     | 4%     |
| Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ddiwallu anghenion trigolion lleol drwy sicrhau mantais i siaradwyr Cymraeg              | 1     | 4%     |
| Hunaniaeth ar ei newydd wedd i sicrhau amodau i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf                               | 1     | 4%     |
| Cyd-weithio mwy gyda Chomisiynydd yr Iaith  | 1     | 4%     |
| Cael ffordd well o adnabod niferoedd dysgwyr  | 1     | 4%     |

### 3.3 Iaith Dysgu

Mae'r Cyngor wedi adnabod 5 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu iaith Dysgu. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 12 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 12: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth iaith Dysgu**

|   | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|--------|-----------|---------------------|
| Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ac achrediadau i bobl ifanc drwy'r gwasanaeth ieuencid  | 72%    | 14%       | 14%                 |
| Cefnogi a datblygu sgiliau hyfforddwy'r cymunedol   | 71%    | 15%       | 14%                 |
| Codi ymwybyddiaeth rhieni am addysg ddwyieithog a gwerth y Gymraeg fel sgil   | 70%    | 21%       | 9%                  |
| Annog mwy o staff y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg ac i wella eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig  | 69%    | 21%       | 10%                 |
| Annog darparwyr cyrsiau sydd yn gysylltiedig efo'r cynllun Prentisiaethau i gynnig cymaint o'u darpariaeth ag sy'n bosib trwy gyfrwng y Gymraeg | 65%    | 26%       | 9%                  |

Mae tabl 13 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 48 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

Tabl 13: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau

| Rheswm   | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Heb roi rheswm   | 20    | 42%    |
| Gwastraff adnoddau - problemau eraill angen blaenoriaeth                         | 7     | 15%    |
| Prentisiaethau Cymraeg yn unig yn gwahaniaethu rhwng y rhai Cymraeg a di-gymraeg | 5     | 10%    |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal               | 5     | 10%    |
| Addysg Gymraeg yn dal disgyblion/myfyrwyr yn ôl                                  | 5     | 10%    |
| Mae cael prentisiaeth dda yn llawer pwysicach na chael o yn Gymraeg              | 3     | 6%     |
| Ni ddylai'r Cyngor fod yn hyrwyddo'r Gymraeg                                     | 3     | 6%     |
| Y gofyn i siarad Cymraeg i allu gweithio yn Gwynedd yn enghraifft o wahaniaethu  | 2     | 4%     |
| Swydd i'r person gorau ddim i'r un sydd yn gallu siarad Cymraeg                  | 2     | 4%     |
| Rhaid annog staff Cyngor Gwynedd di-gymraeg i ddysgu Cymraeg                     | 1     | 2%     |
| Y Cyngor i ddarparu gwersi Cymraeg i bobl - nid yn unig staff y Cyngor           | 1     | 2%     |
| Angen chwyldro mawr i newid pethau   | 1     | 2%     |
| Cymryd bod pob gweithiwr i Gyngor Gwynedd yn siarad Cymraeg yn barod             | 1     | 2%     |

Holwyd, ar gyfer y maes iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 31 (19%) bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 14 isod.

Tabl 14: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau

|  | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Angen darbwyllo rhieni / plant, ac athrawon, o werth amhrisiadwy y Gymraeg/dwy-ieithrwydd iddynt ym myd gwaith | 8     | 26%    |
| Dysgu staff Cyngor sydd yn delio gyda pobl yn bwysig   | 5     | 16%    |
| Peidio defnyddio'r iaith Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu  | 5     | 16%    |
| Pwyslais fod ar addysg drwy Saesneg  | 2     | 6%     |
| Mwy o ddsbarthiadau Cymraeg yn y cymunedau gwledig   | 2     | 6%     |
| Cyngor i geisio peidio defnyddio Cymraeg ffurfiol mewn holiaduron/gohebiaeth                                   | 1     | 3%     |
| Codi ymwybyddiaeth mewn fudwyr am werth yr iaith a'r parch ddylid ei roi iddi                                  | 1     | 3%     |
| Gwastraff adnoddau prin  | 1     | 3%     |
| Sicrhau nad ydy'r bwyslais ar allu siarad Cymraeg yn cadw pobl broffesiynol rhag symud i'r ardal               | 1     | 3%     |
| Safon iaith Cyngor Gwynedd wedi dirywio yn ofnadwy   | 1     | 3%     |
| Gwella cyflwr ein hysgolion er mwyn gwneud ysgolion Cymraeg yn ddeiniadol i ddisgyblion                        | 1     | 3%     |
| Canolbwyntio ymdrechion mewn ardaloedd sydd wedi gweld dirywiad yn nifer y siaradwyr                           | 1     | 3%     |
| Edrych i ddefnyddio technoleg i helpu pobl ddysgu Cymraeg  | 1     | 3%     |
| Dylid annog staff busnesau/gwasanaethau i gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg hyd yn oed ambell air                  | 1     | 3%     |
| Pennu mwy o ysgolion yn Ysgolion Cymraeg yn hytrach na dwy-ieithog   | 1     | 3%     |

**3.4 Iaith Gwaith a Gwasanaeth**

Mae'r Cyngor wedi adnabod 6 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu iaith Gwaith a Gwasanaeth. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 15 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 15: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth iaith Gwaith a Gwasanaeth**

|   | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|--------|-----------|---------------------|
| Hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil a datblygu dealltwriaeth pobl o bob oed am y galw yn y byd gwaith   | 70%    | 20%       | 10%                 |
| Cydweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i weld sut y gallwn ni drosglwyddo rhai o'r arferion da yma i sefydliadau eraill, ac hefyd i gydweithio i wella profiadau'r defnyddwyr | 68%    | 20%       | 12%                 |
| Annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau cymaint a phosib o gyfleoedd i'r trigolion ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau dyddiol                                       | 67%    | 25%       | 8%                  |
| Annog mwy o gyrff cyhoeddus i arddel y cynnig rhagweithiol, gwneud defnydd effeithiol o gyfarfodydd a gweithredu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg   | 66%    | 25%       | 9%                  |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw teg wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau recriwtio, datblygu sgiliau gweithlu a chefnogi ddysgwyr  | 66%    | 26%       | 8%                  |
| Treialu cynlluniau o fewn y Cyngor i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig gwasanaethau ar-lein                                       | 64%    | 26%       | 10%                 |

Mae tabl 16 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 50 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 16: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm   | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Heb roi rheswm   | 24    | 48%    |
| Ni ddylid rhoi mwy o bwyslais ar un iaith na'r llall                 | 10    | 20%    |
| Ni ddylid cyflogi rhywun ar sail yr iaith maent yn siarad            | 9     | 18%    |
| Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth                    | 7     | 14%    |
| Mae'n teimlo fel nad ydy pobl o du allan i Gymru yn cael eu croesawu | 6     | 12%    |

Holwyd, ar gyfer y maes iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 28 (18%) bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 17 isod.

Tabl 17: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau

|  | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Cynnig gwell hyfforddiant Cymraeg i weithwyr di-gymraeg                          | 5     | 18%    |
| Sicrhau safonau dwy-ieithog i fusnesau   | 3     | 11%    |
| Stopiwch wneud mewnfudwyr deimlo nad oes croeso iddynt                           | 3     | 11%    |
| Angen edrych ar wasanaethau cyfieithu gwell                                      | 3     | 11%    |
| Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal            | 3     | 11%    |
| Gwobrwo busnesau sydd yn llwyddo i hybu defnydd y Gymraeg                        | 3     | 11%    |
| Dysgu hanes yr iaith i blant a theuluoedd newydd i'r ardal - ysgogi nhw i ddysgu | 3     | 11%    |
| Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth                                | 3     | 11%    |
| Cyngor angen polisi iaith cryfach  | 1     | 4%     |
| Angen edrych ar poisiau cynllunio  | 1     | 4%     |
| Stopio mewnfudwyr hawlio tir comin   | 1     | 4%     |
| Papurau Bro am ddim i ardaloedd di-gymraeg                                       | 1     | 4%     |
| Angen ffurflenni Cymraeg haws i'w deall  | 1     | 4%     |
| Gwefan y Cyngor beidio mynd yn syth i'r dudalen Saesneg wrth chwilio             | 1     | 4%     |
| Mwy o ddefnydd arwyddion/bathodynau "dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg"            | 1     | 4%     |

### 3.5 Technoleg ac Ymchwil

Mae'r Cyngor wedi adnabod 2 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Technoleg ac Ymchwil. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 18 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

Tabl 18: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Technoleg ac Ymchwil

|  | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|--|--------|-----------|---------------------|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am yr apiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, er mwyn annog pobl i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg ar -lein        | 70%    | 17%       | 13%                 |
| Ystyried a ddylid galw am sefydlu cronfa wybodaeth ac ymchwil ganolog, lle mae posib cael gafael yn rhwydd ar waith ymchwil perthnasol | 50%    | 18%       | 32%                 |

Mae tabl 19 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 37 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

Tabl 19: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau

| Rheswm  | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Heb roi rheswm  | 23    | 62%    |
| Gwastraff amser ac adnoddau   | 9     | 24%    |
| Ymchwil o safon - beth bynnag fo'r iaith  | 3     | 8%     |
| Mae'r pwyslais ar wneud bob dim yn Gymraeg yn niweidiol i sgiliau saesneg plant | 2     | 5%     |
| Dylid gadael hyn i'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg                                 | 1     | 3%     |

Holwyd, ar gyfer y maes iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 22 (14%) nodi bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 20 isod.


Tabl 20: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau

|   | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Codi ymwybyddiaeth o apiau Cymraeg - defnydd o enwogion i hyrwyddo                | 3     | 14%    |
| Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth                                 | 3     | 14%    |
| Dylanwadau ar gwmnïau megis Apple/Google i gynyddu defnydd o Gymraeg              | 3     | 14%    |
| Angen mewnbwn pobl ifanc  | 2     | 9%     |
| Apiau i ddefnyddio enwau lleoedd yn Gymraeg yn unig                               | 2     | 9%     |
| Sicrhau mae Cymraeg ydy iaith rhagosod gwefanau                                   | 1     | 5%     |
| Angen i sgop fod llawer mwy na just apiau Cymraeg - angen edrych ar oblygiadau AI | 1     | 5%     |
| Cofio nad ydy cysylltiad wê ym mhob ardal o Wunedd i'r un safon                   | 1     | 5%     |
| Cyfeiriad e-bost Cymru i bawb   | 1     | 5%     |
| Gwersi Cymraeg am ddim i weithwyr o dramor  | 1     | 5%     |
| Dysgu Cymraeg yn yr ysgolion  | 1     | 5%     |
| Gwella technoleg gyfieithu fel nad oes angen dysgu'r iaith                        | 1     | 5%     |
| Templedi ar gyfer gwefanau dwy-ieithog  | 1     | 5%     |
| Heb y gwaith ymchwil nid oes modd gwybod beth sydd ei angen                       | 1     | 5%     |
| Dylai prosiectau yma gael eu ariannu yn breifat                                   | 1     | 5%     |

#### 4 Effaith y Cynllun


Holwyd yr ymatebwyr a oeddynt yn credu bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn mynd i gael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg yng Ngwynedd yng nghwestiwn 10. Mae graff 5 isod yn dangos bod 40% (n=64) yn cytuno bod y cynllun am gael effaith gadarnhaol, gyda 26% (n=41) yn anghytuno a 33% (n=54) ddim yn siŵr beth fyddai effaith y cynllun ar y Gymraeg yng Ngwynedd.

**Graff 5: Ydych chi'n credu bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn mynd i gael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg yng Ngwynedd**



Roedd cyfle i'r ymatebwyr awgrymu os oes camau penodol all y Cyngor eu cymryd i sicrhau bod y strategaeth yn un gynhwysol, yn annog a chynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg grwpiau penodol o'r gymdeithas, yn arbennig pobl gyda nodweddion gwarchoddedig cydraddoldeb. Gwelir yr ymateb yn graff 6 isod.

**Graff 6: Oes camau penodol i'w cymryd i sicrhau strategaeth gynhwysol**



I'r rhai atebodd "oes" roedd cyfle iddynt nodi sut y gellid cyflawni hyn. Mae awgrymiadau'r 49 ymatebydd i'w gweld yn tabl 21 isod.

Tabl 21: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau

|  | Nifer | Canran |
|--|-------|--------|
| Ymgynghori gyda grwpiau o bob math i sicrhau cynrychiolaeth a chydberchnogaeth   | 16    | 33%    |
| Sicrhau bod y strategaeth yn gynhwysol i bob un o drigolion Gwynedd  | 12    | 24%    |
| Ni ddylid hyrwyddo'r Gymraeg i'r fath raddau fel ei fod yn ffordd o wahaniaethu rhwng y rhai hynny sydd yn ddi-gymraeg | 9     | 18%    |
| Gwersi Cymraeg am ddim i oedolion / grwpiau lleiafrifol  | 7     | 14%    |
| Heb nodi eu awgrym   | 5     | 10%    |
| Cael gwared ar y stigma am ddysgu Cymraeg a pheidio cywiro y rhai sydd yn ceisio ei dysgu                              | 3     | 6%     |
| Angen hyfforddiant i oflawyr er mwyn iddynt allu cyfathrebu drwy'r Gymraeg   | 2     | 4%     |
| Sicrhau nad ymarfer papur yn unig ydy'r strategaeth  | 2     | 4%     |
| Pendantrwydd i roi'r Gymraeg yn gyntaf ar bob achlysur   | 2     | 4%     |
| Angen cydweithio gyda busnesau annibynnol  | 1     | 2%     |
| Angen defnyddio llawer mwy ar y cyfryngau cymdeithasol i hybu'r iaith  | 1     | 2%     |
| Annog plant sy'n symud o cynradd i uwchradd i barhau i ddefnyddio eu Cymraeg   | 1     | 2%     |
| Pwyslais ar addysg Gymraeg yn niweidiol i'r plant a anghenion swyddi yn y dyfodol                                      | 1     | 2%     |
| Angen mwy o gynghorwyr di-gymraeg  | 1     | 2%     |
| Defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar lefydd  | 1     | 2%     |
| Rhoi pwyslais ar y manteision o fod yn ddwyieithog   | 1     | 2%     |
| Angen mwy o ddeunyddiau ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu siarad  | 1     | 2%     |
| Newid polisiau Gwynedd sy'n mynnu bod gweithwyr yn gallu siarad Cymraeg  | 1     | 2%     |
| Gwastraff amser ac adnoddau  | 1     | 2%     |
| Angen rhoi pwysau ar weddill Cymru i wneud mwy i hybu'r Gymraeg  | 1     | 2%     |
| Edrych ar y diffyg cartrefi sydd ar gael i gadw pobl ifanc yn yr ardal   | 1     | 2%     |

Yn olaf yng nghwestiwn 11, roedd cyfle i'r ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt ar gynnwys y strategaeth. Bu i 38% (n=54) wneud sylw pellach. Ceir crynodb o'r sylwadau yma yn tabl 22 isod.

Tabl 22: Unrhyw sylwadau eraill – wedi eu grwpio i themau

|   | Nifer | Canran |
|---|-------|--------|
| Teimlo'n obeithiol wedi darllen y strategaeth   | 14    | 26%    |
| Gwastraff amser ac adnoddau prin  | 8     | 15%    |
| Dathlu dwyieithrwydd a dim creu cymuned ranedig   | 7     | 13%    |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal  | 6     | 11%    |
| Angen cynyddu'r nifer disgyblion sydd yn derbyn addysg Gymraeg yn yr uwchradd/cwblhau arholiadau drwy'r Gymraeg | 4     | 7%     |
| Angen sicrhau bod swyddi gwerth uchel yn yr ardal i gadw ein pobl ifanc yn yr ardal                             | 4     | 7%     |
| Addysg Gymraeg yn anfanfeisiol  | 4     | 7%     |
| Rhaid canolbwyntio ar newid meddylfryd plant a phobl ifanc am yr iaith  | 3     | 6%     |
| Rhaid canolbwyntio ar wneud yr iaith yn iaith gymdeithasol  | 2     | 4%     |
| Bwlch rhwng yr iaith ffurfiol a chymdeithasol yn gwneud yn anodd i ddysgwyr                                     | 2     | 4%     |
| Peidio defnyddio'r iaith fel ffordd i wahaniaethu   | 2     | 4%     |

|   |   |    |
|---|---|----|
| Defnyddio'r iaith yn ddyddiol i fagu hyder  | 1 | 2% |
| Ysgolion i sicrhau eu bod yn rhoi cymorth angenrheidiol i'r rhieni di-gymraeg     | 1 | 2% |
| Diffyg siaradwyr Cymraeg i ddysgwyr ymarfer gyda nhw                              | 1 | 2% |
| Angen taclo'r anghyfiawnderau megis perchnogaeth tŷ i helpu gyda sefyllfa'r iaith | 1 | 2% |
| Angen rhoi pwysau ar weddill Cymru i wneud mwy i hybu'r Gymraeg                   | 1 | 2% |
| Pryderu bod poblogaeth Gwynedd yn gostwng   | 1 | 2% |
| Peidio denu mwy o drigolion di-gymraeg i Wynedd                                   | 1 | 2% |
| Angen hysbysebu'r ymgynghoriadau yn well  | 1 | 2% |
| Yr unig fesur gwerth i'w gael ydi'r nifer siaradwyr                               | 1 | 2% |



**Atodiad A      Canlyniadau Cwestiynau Cydraddoldeb**

Bydd yr adran yma yn dangos canlyniadau i'r cwestiynau cydraddoldeb a holwyd ar ddiwedd yr holiadur.

**Tabl 23: Rhyw**

|                                    | <b>Nifer</b> | <b>Canran</b> |
|------------------------------------|--------------|---------------|
| Dyn / Gwryw                        | 55           | 34.6%         |
| Dynes / Benyw                      | 87           | 54.7%         |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 1            | 0.6%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud        | 14           | 8.8%          |
| Heb ateb                           | 2            | 1.3%          |
| <b>Cyfanswm</b>                    | <b>159</b>   | <b>100.0%</b> |

**Tabl 24: Oed**

|                             | <b>Nifer</b> | <b>Canran</b> |
|-----------------------------|--------------|---------------|
| 25 - 34 oed                 | 3            | 1.9%          |
| 35 - 44 oed                 | 21           | 13.2%         |
| 45 - 54 oed                 | 36           | 22.6%         |
| 55 - 64 oed                 | 35           | 22.0%         |
| 65 - 74 oed                 | 37           | 23.3%         |
| 75 - 84 oed                 | 14           | 8.8%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12           | 7.5%          |
| Heb ateb                    | 1            | 0.6%          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>159</b>   | <b>100.0%</b> |

**Tabl 25: Sgiliau Cymraeg**

|   | <b>Nifer</b> | <b>Canran</b> |
|---|--------------|---------------|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl                  | 84           | 52.8%         |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 14           | 8.8%          |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu           | 12           | 7.5%          |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu              | 5            | 3.1%          |
| Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg                   | 14           | 8.8%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud                             | 16           | 10.1%         |
| Arall   | 14           | 8.8%          |
| <b>Cyfanswm</b>   | <b>159</b>   | <b>100.0%</b> |

Tabl 26: Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol

|                             | Nifer      | Canran        |
|-----------------------------|------------|---------------|
| Cymreig                     | 88         | 55.3%         |
| Seisnig                     | 19         | 11.9%         |
| Prydeinig                   | 34         | 21.4%         |
| Arall                       | 6          | 3.8%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10         | 6.3%          |
| Heb ateb                    | 2          | 1.3%          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |

Tabl 27: Hil

|                                | Nifer      | Canran        |
|--------------------------------|------------|---------------|
| Gwyn                           | 134        | 84.3%         |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig      | 2          | 1.3%          |
| Asiaidd                        | 1          | 0.6%          |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 1          | 0.6%          |
| Arall                          | 1          | 0.6%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud    | 17         | 10.7%         |
| Heb ateb                       | 3          | 1.9%          |
| <b>Cyfanswm</b>                | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |

Tabl 28: Crefydd

|                             | Nifer      | Canran        |
|-----------------------------|------------|---------------|
| Cristion                    | 67         | 42.1%         |
| Dim crefydd                 | 61         | 38.4%         |
| Bwdhaidd                    | 1          | 0.6%          |
| Iddewig                     | 1          | 0.6%          |
| Arall                       | 9          | 5.7%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 19         | 11.9%         |
| Heb ateb                    | 1          | 0.6%          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |

Tabl 29: Rhywioldeb

|                             | Nifer      | Canran        |
|-----------------------------|------------|---------------|
| Heterorywiol / Strêt        | 122        | 76.7%         |
| Dynes hoyw / lesbiaidd      | 1          | 0.6%          |
| Dyn hoyw                    | 4          | 2.5%          |
| Deurywiol (Bisexual)        | 2          | 1.3%          |
| Arall                       | 3          | 1.9%          |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 24         | 15.1%         |
| Heb ateb                    | 3          | 1.9%          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |

Tabl 30: Hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni

|                             | Nifer      | Canran        |
|-----------------------------|------------|---------------|
| Ydi                         | 3          | 1.9%          |
| Nac ydi                     | 135        | 84.9%         |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 17         | 10.7%         |
| Heb ateb                    | 4          | 2.5%          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |

Tabl 31: Anabledd (yn ôl diffiniad Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)

|                             | Nifer      | Canran        |
|-----------------------------|------------|---------------|
| Ydw                         | 21         | 13.2%         |
| Nac ydw                     | 118        | 74.2%         |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 17         | 10.7%         |
| Heb ateb                    | 3          | 1.9%          |
| <b>Cyfanswm</b>             | <b>159</b> | <b>100.0%</b> |



### **Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar Strategaeth Iaith 2023-33**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn gymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid.

Tra yn cydnabod bod dylanwad y cyngor wedi ei gyfyngu i'w ddarpariaeth ei hun yn bennaf rydyn ni o'r farn bod lle gan y Cyngor i osod nod mai'r Gymraeg fydd prif iaith y sir a bod cydweithio gyda a phwyso ar sefydliad sefydliadau eraill y mae eisoes yn ymwneud â nhw, fel y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Prifysgol Bangor, Gwasanaeth Tân ac Achub, Heddlu Gogledd Cymru a chyrrff y mae'n dyrannu grantiau iddyn nhw i osod yr un nod trwy fabwysiadau'r egwyddor o wneud y Gymraeg yn brif iaith yn eu sefydliadau.

Mae Cyngor Gwynedd mewn lle da i rannu arfer da gyda chyrrff eraill, a mynnu bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar ran neu mewn cydweithrediad â'r Cyngor yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Er bod cyfeirio at drafferthion recriwtio, fel corff sy'n gweinyddu trwy'r Gymraeg does dim angen dweud bod angen i staff allu gweithio trwy'r Gymraeg.

Yn hytrach na dweud y bydd "y Gymraeg yn cael sylw teg wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau recriwtio/datblygu gweithlu" felly mae angen sicrhau bod staff sy'n cael eu penodi yn gallu defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith neu bod disgwyl iddynt gyrraedd y lefel hynny o fewn cyfnod penodol

Gellid dadlau maes gweithredu 4, sydd yn ymwneud â chymunedau yw maes pwysicaf y strategaeth gan fod nifer o elfennau eraill yn golygu nad yw pobl yn gallu aros yn eu cymuned i fyw a gweithio.

Mae'r strategaeth yn cyfeirio at "*datblygu dealltwriaeth o be mae "cymuned" yn ei olygu yn y Gwynedd fodern.*"

Byddai'n anodd diffinio cymuned yn Ngwynedd gan y bydd pob cymuned a'i hanghenion yn wahanol a mesur defnydd cymunedol o'r Gymraeg felly mae'n bwysig creu amodau ffafriol i gymunedau a galluogi pobl i fyw ynddynt.

Cyfeirir at broblemau tai, ond does dim byd yn y strategaeth fyddai'n mynd i'r afael â hynny. Mae grymoedd newydd gan y cyngor sir i godi 300% o dreth ar ail dai, ond dydy'r cyngor ddim wedi arfer y grym hynny yn llawn.

Dydyn ni ddim wedi cael gwybod eto a fydd yn rhoi amod erthygl 4 yn unrhyw wardiau yn y sir, er mwyn mynnu cais cynllunio i newid cartref yn ail dŷ.

Wrth gwrs mae'r broblem yn ehangach nag ail dai a llety gwyliau, mae'r strategaeth ei hun yn cyfeirio at y farchnad dai fel un o'r heriau sylweddol i hyfywedd cymuned:

*"pwysau ar y farchnad dai, sydd yn golygu bod pobl yn gorfod symud i gymunedau eraill er mwyn byw a gweithio."*

Mae colli pobl o'n cymunedau am bod prisiau tai y tu hwnt i gyrraedd pobl ar gyflog lleol yn broblem sylweddol.

Gallai'r cyngor alw ar y Llywodraeth i ddefnyddio'r cyfle trwy'r Ddeddf Eiddo sydd wedi ei haddo i reoleiddio'r farchnad dai a'i gwneud yn haws i fentrau a arweinir gan gymunedau i allu cynnig amrywiaeth o atebion lleol addas i'w cymuned.

Mae cynigion Cymdeithas yr Iaith ar gyfer Deddf [i'w gweld yma](#).

Mae'r strategaeth yn nodi hefyd bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth amrywiol yn ffactor arall sy'n effeithio ar allu pobl i aros yn eu cymuned.

Eto, credwn bod lle gan y cyngor ei hun i fynd i'r afael a hyn. Mae'r strategaeth iaith yn cyfeirio at gynllun Arfor a'r grantiau fydd ar gael yn sgil hynny. Dylai'r grantiau ar gyfer busnesau gael eu blaenoriaethu i fentrau cymunedol fydd yn creu gwaith yn lleol.

Ar ben hynny mae lle gan y cyngor i osod amodau ar grantiau mae'n eu dyrannu bod y Gymraeg yn dod yn brif iaith a'u bod yn creu cyflogaeth yn lleol.

Yn ogystal â'r ddau beth yma mae diffyg buddsoddiad mewn cymunedau yn her sylweddol ac yn ei gwneud yn anodd i bobl fyw mewn cymunedau gwledig.

Byddai'n anodd i rywun sy'n ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus deithio i'r gwaith mewn rhai ardaloedd. Mae angen i rywle fod yn lle apelgar i fyw hefyd, os nad oes cyfleoedd cymdeithasol neu fodd i deithio gyda'r hwyr bydd pobl yn llai tebygol o fod eisiau byw mewn cymunedau gwledig.

Mae poblogaeth ifanc y sir yn achos pryder ym maes addysg. Yn ddiweddar fe wnaeth yr aelod cabinet â chyfrifoldeb dros addysg nodi y bydd strategaeth ar gyfer moderneiddio'r gyfundrefn ysgolion yn digwydd dros yr Haf, ac y bydd yn cymryd y cwmp yn nifer y disgyblion yng Ngwynedd i ystyriaeth.

Mae ysgolion yn cael eu gweld fel adnoddau addysgol i blant yn unig ond gallant fod yn ganolbwynt i weithgareddau a bywyd cymuned. Mae cyfle felly trwy'r strategaeth newydd i gryfhau profiad cymunedau Gwynedd yn ogystal â phrofiad addysgol pobl ifanc. Mae amryw fodolau sy'n bosibl er mwyn cynnal ysgolion gwledig tra hefyd yn eu gwneud yn adnodd cymunedol.

Pryder arall ym maes addysg yw bod y strategaeth iaith yn cyfeirio at *"Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg, i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus."*

Dydy "rhai cyfle" i bawb gael addysg Gymraeg ddim yn ddigon. Er bod mwyafrif helaeth ysgolion y sir yn rhai Cymraeg mae'n bryd symud Ysgol Friars ym Mangor ac Ysgol Uwchradd Tywyn at fod yn ysgolion Cymraeg. Does dim rheswm amlwg pam bod y ddwy yn ysgol Saesneg o hyd.

Dydy hi ddim yn glir chwaith sut fydd mesur effaith y strategaeth. Un targed sydd yn y strategaeth:

*"Rydym am osod targed cyffredinol i weld cynnydd yn y defnydd rheolaidd o'r Gymraeg. Rydym hefyd eisiau gweld 100% o blant Gwynedd yn cael y cyfle i siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith yn rheolaidd."*

Mae'n darged annelwig sy'n rhy gyffredinol. Os mai'r bwriad yw creu cynllun er mwyn gweithredu'r strategaeth mae angen targedau pendant i anelu atynt.

Cymdeithas yr Iaith

Mai 2023